# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYNGOR SIR DDINBYCH 2016 - 2017

Gellir trefnu i'r ddogfen hon fod ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais.

## Cyfarwyddyd Amlieithog

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, gofynnwch i rywun yr ydych yn ei adnabod sydd yn siarad Cymraeg neu Saesneg ffonio 01824 706291.  Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg.

If you need further information, please ask someone you know who speaks English or Welsh to telephone 01824 706291. We welcome telephone calls in Welsh.

Jeżeli potrzebują państwo dalszych informacji, proszę poprosić kogoś, kto mówi po angilesku lub walijsku żeby zadzwonił pod numer 01824 706291

اگر آپ کو مزید معلومات درکار ہوں تو براہِ مہربانی انگریزی یا ویلش زبان جاننے والے اپنے کسی واقف کار سے کہیں کہ
وہ آپ کی جانب سے فون نمبر 01824 70 6291 سے رابطہ کریں۔

আপনার যদি আরো তথ্যের প্রয়োজন হয়, তাহলে আপনার জানা ইংরেজী অথবা ওয়েলশ ভাষা বলতে পারেন এমন কাউকে অনুগ্রহ করে 01824 706291 নম্বরে টেলিফোন করতে বলুন

Se você precisar de nova informação, por favor pergunte alguém você sabe quem diz o galês o'r inglês para telefonar 01824 706291

01824706291 اذا كنت بحاجة الى مزيد من المعلومات ، يرجى الطلب من شخص ما تعرف من يتحدث الإنجليزية أو الويلزية الهاتف

如果您需要更多信息，请向你认识的人谁讲英语或威尔士电话：01824706291

Tudalen

## Cynnwys

Cyfarwyddyd Amlieithog ........ 1
1. Cyflwyniad ........ Error! Bookmark not defined.
2. Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr ........ Error! Bookmark not defined.
3. Sut Mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau? ........ 6
4. Hyrwyddo a Gwella Llesiant y Bobl Rydym yn eu Helpu ........ 10
a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl am eu cyflawni ........ 10
b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u llesiant emosiynol ........ Error! Bookmark not defined.
c) Cymryd camau i ddiogelu ac amddiffyn pobl rhag eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio Error! Bookmark not defined.
d) Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas ........ 21
e) Helpu pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach a diogel 24
f) Gweithio gyda phobl a'u helpu i sicrhau llesiant economaidd gwell, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u hanghenion ........ 26
5. Sut Rydym yn Gwneud ein Gwaith ........ 32
a) Ein Gweithlu a Sut Rydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol ........ 32
b) Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol ........ 34
c) Ein Gwaith mewn Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd........ 34
6. Cael Gafael ar Ragor o Wybodaeth a Dogfennau Allweddol ........ 36
7. Rhestr Termau ........ 37

## 1. Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad blynyddol hwn yw disgrifio sut mae'r awdurdod lleol wedi gwella ei ffordd o ddarparu gwasanaethau i bobl yn Sir Ddinbych. Bydd rhai pobl yn cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth a byddant yn gallu rheoli eu hanghenion eu hunain a bydd rhai unigolion a gofalwyr yn cael gofal a chymorth o dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r adroddiad yn dangos hefyd sut mae Sir Ddinbych wedi hyrwyddo llesiant a gofalu am gyflawni chwe safon ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer canlyniadau llesiant, sef:

1) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl am eu cyflawni.
2) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u llesiant emosiynol.
3) Cymryd camau i ddiogelu ac amddiffyn pobl rhag eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio.
4) Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.
5) Helpu pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach a diogel.
6) Gweithio gyda phobl a'u helpu i sicrhau llesiant economaidd gwell, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u hanghenion.

Bydd yr adroddiad o ddiddordeb i'r canlynol:

- Aelodau etholedig ac eraill sy'n ymwneud â phrosesau craffu
- Pobl sy'n cael cymorth gan Wasanaethau Cymdeithasol
- Partneriaid yr awdurdod lleol, yn cynnwys partneriaid ffurfiol ac eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r Trydydd Sector sydd ag angen deall rhaglen yr awdurdod lleol a'i amcanion blaenoriaethol
- Rheoleiddwyr (yn cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Comisiynwyr Statudol)
- Llywodraeth Cymru.

Bydd yr adroddiad hefyd o ddiddordeb i'r cyhoedd ac i bobl sy'n ymddiddori yng ngwaith eu hawdurdod lleol, ei berfformiad a sut mae arian yn cael ei wario.

## 2. Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr

Rwyf yn falch o gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016-2017 i Gyngor Sir Ddinbych. Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu pa mor dda rydym wedi darparu gwasanaethau cymdeithasol yn y flwyddyn ddiwethaf a disgrifio ein blaenoriaethau ar gyfer gwella yn 2017-2018. Mae'r adroddiad yn darparu asesiad manwl o effeithiolrwydd gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion, plant a theuluoedd, a gofalwyr yn Sir Ddinbych. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn llywio pob agwedd ar ein gwaith ac mae hyn wedi parhau yn ystod 2016-2017 a'n prif gymhelliant ar gyfer y flwyddyn hon oedd cyflawni gofynion y Deddfau hyn.

Rwyf yn credu ein bod yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd da ac mae hyn wedi'i brofi gan dystiolaeth sy'n dangos ein bod yn gwella canlyniadau i'n dinasyddion a'n cymunedau.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthnasoedd cadarnhaol wrth gydweithio â phartneriaid yn y sector statudol, y sector annibynnol a'r trydydd sector er mwyn cydweithio ac integreiddio i raddau cynyddol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n holl staff ac i'n partneriaid am eu gwaith caled, ei hymroddiad a'u proffesiynoldeb cyson, ac am y gefnogaeth barhaus gan y weinyddiaeth wleidyddol. Gyda'n gilydd, rwyf yn ffyddiog ein bod mewn lle da i ateb yr heriau a geir yn 2017-2018 a'r blynyddoedd sydd o'n blaen.

**Crynodeb o'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:**

- Adolygu'r Un Pwynt Mynediad a sesiynau Pwyntiau Siarad a'u datblygu ymhellach gyda phartneriaid presennol a newydd
- Cynllunio a gweithredu prosiect i sicrhau bod ystyriaeth i Gyllidebau Cymorth yn rhan annatod o'r broses cynllunio ar gyfer asesu a chymorth
- Datblygu strategaeth ymyrryd ac atal
- Parhau i wella ansawdd a chwmpas y Wybodaeth, Cyngor a Chymorth
- Parhau i ddatblygu ein prosiect ar gyfer casglu lleisiau plant, pobl ifanc a theuluoedd drwy ffyrdd arloesol o ddefnyddio cyfryngau digidol a chymdeithasol
- Datblygu Timau Adnoddau Cymunedol Integredig
- Cymryd camau pellach i integreiddio'r ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth
- Parhau i ofalu am anghenion plant sy'n derbyn gofal am lesiant emosiynol a sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael profiadau cadarnhaol mewn lleoliadau

- Rhoi prosesau a strwythurau diwygiedig ar waith i gynnal trefniadau diogelu ar gyfer oedolion sy’n profi neu sydd mewn perygl o brofi niwed a chynnal prawf newid pellach mewn perthynas â phrosesau a strwythurau diogelu oedolion
- Canolbwyntio ar y plant a phobl ifanc hynny y nodwyd eu bod wedi cael profiadau anffafriol mewn plentyndod
- Ailstrwythuro’r Gwasanaeth Derbyn ac Ymyrraeth
- Cynnal prosiect adolygu ac ailasesu ar gyfer yr holl bobl sy’n cael gofal a chymorth a reolir dros y tymor hir
- Adolygu’r wybodaeth sydd ar gael i Ofalwyr a sicrhau bod Gofalwyr yn gallu derbyn amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi
- Gwella’r broses cydgysylltu ar gyfer comisiynu a gwerthuso Rhaglenni Rhianta
- Cydweithio â phartneriaid i barhau i ddatblygu ac wedyn mabwysiadu proses cydnabod genedlaethol ar gyfer busnesau a sefydliadau cymunedol a masnachol ‘cyfeillgar i ddementia’
- Cwblhau ein Strategaeth Ddigartrefedd




Nicola Stubbins
Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

# 3. Sut Mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?

**Gwasanaethau Cymorth Cymunedol**

Mae pobl yn llunio ein gwasanaethau drwy gymryd rhan yn ein Harolwg Bodlonrwydd Dinasyddion – Dweud eich Dweud.




Anfonwyd **1,099** o holiaduron Dweud Eich Dweud gan y Tîm Cyswllt Cwsmer y llynedd a chafwyd **511** o ymatebion. Cyfradd dychwelyd o **46%.**

Anfonodd y Gwasanaeth Ailalluogi yr un holiadur at bobl a gafodd gymorth ailalluogi ac roedd hyn wedi arwain at **73** o ymatebion ychwanegol. Gweler adran 4a am enghreifftiau o arfer da, meysydd i'w gwella ac enghreifftiau o'r adborth a gawsom.

Un rhan o'r broses Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yw cofnodi canmoliaeth ac mae adborth gan ddinasyddion yn cael ei gynnwys drwy'r broses cwynion a'i gymhwyso drwy gynllun gweithredu ar wersi a ddysgwyd. Mae Swyddog Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yn llunio adroddiad chwarterol i'r tîm rheoli ac yn tynnu sylw at farn defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Llunnir cynlluniau gweithredu i ymdrin â meysydd sy'n peri pryder a bydd swyddog penodol yn gyfrifol am sicrhau bod y camau gweithredu a nodir yn cael eu cymryd. Gweler adran 5c am fanylion am ein perfformiad wrth drafod ac ymchwilio i gwynion a sylwadau a gyflwynir.

Mae gennym fforymau cynllunio lle mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wedi'u cynrychioli, fel y rhai canlynol:

- Fforwm Cynllunio Iechyd Meddwl
- Grŵp Cynllunio Strategol Anabledd Dysgu
- Grŵp Strategaeth Gofalwyr
- Grŵp Cyfeirio Pobl Hŷn

Rydym hefyd yn darparu cyllid i amrywiaeth fawr o sefydliadau Trydydd Sector sy'n ymgynghori â dinasyddion ar ein rhan ar wahanol faterion ac yn darparu adborth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Age Connects – Fforymau / Hubbubs / prosiect Speak-Up
- Y Groes Goch Brydeinig


- Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru
- Vision Support
- Fforwm Sir Ddinbych i Bobl ag Anableddau Dysgu

Mae dinasyddion sy'n cael cymorth gan brosiectau Cefnogi Pobl yn cael eu gwahodd i gael eu cyf-weld yn ystod pob adolygiad strategol. Yn ogystal â hyn, ymgynghorir â dinasyddion ar gynlluniau Cefnogi Pobl ar gyfer y flwyddyn i ddod sydd yn y Cynllun Comisiynu Lleol.

Mae Swyddog Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau Cefnogi Pobl wedi ymgymryd â nifer mawr o weithgareddau i sicrhau bod y gwasanaethau'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth wneud penderfyniadau a phennu eu cyfeiriad. Un agwedd ar hyn oedd datblygu Pecyn Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau sydd wedi'i anfon yn ddwyieithog at yr holl ddarparwyr i'w adolygu, ynghyd ag arolwg i ofyn am sylwadau neu awgrymiadau.

Yn ogystal â hyn, mae staff wedi sefydlu **Pwyntiau Siarad** i gynnig ffordd wahanol i bobl gael gwybod am y cymorth a chefnogaeth sydd ar gael yn eu cymuned leol i wella eu hiechyd a'u llesiant. Yn y Pwyntiau Siarad, bydd dinasyddion yn cael cyfle i gwrdd â rhywun sy'n wybodus am ofal cymdeithasol a materion llesiant. Gallant hefyd gwrdd â'r Llywyr Cymunedol newydd a chael gwybod beth sy'n digwydd yn eu hardal mewn man cyfleus, addas a chartrefol. Gallant siarad am y canlyniadau llesiant y maent am eu sicrhau iddyn nhw eu hunain neu i eraill. Y nod yw darganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw fel y gallant fyw bywyd o'u dewis mewn amgylchedd diogel. Y Pwyntiau Siarad yw'r lle i bobl wirfoddoli i helpu yn eu cymuned hefyd. O ganlyniad i ymgysylltu o'r fath, daeth un dinesydd i gyfarfod o Therapyddion Galwedigaethol, i sôn am ei brofiad cadarnhaol o ddefnyddio'r gwasanaeth yn Sir Ddinbych a'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud yn ei fywyd.

Y flwyddyn ddiwethaf, roeddem wedi nodi bod Pwyntiau Siarad yn cael eu sefydlu yn ein trefi a chymunedau mwyaf a'n bod yn gweithio gyda phobl wyneb yn wyneb i ddarganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw yn hytrach na beth sydd o'i le arnynt. Mae naw Pwynt Siarad wedi'i sefydlu bellach ac maent yn mynd o nerth i nerth. Cofnodir yr holl weithgareddau bob mis ar Gardiau Cofnodi Perfformiad Pwyntiau Siarad.




Dros y naw mis diwethaf, rhoesom gymorth i **1,011** o ddinasyddion drwy **167** o Bwyntiau Siarad ledled y sir. Gwnaethom **376** o apwyntiadau â staff Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd **634** o bobl wedi galw heibio am wybodaeth neu gyngor.
Rydym wedi atal atgyfeirio 699 o ddinasyddion i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd dinasyddion yn ymwneud yn gynnar â chomisiynu gwasanaethau, wrth ddatblygu ein Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hŷn. Rydym yn gofyn am farn pobl hŷn i'n helpu i ddeall anghenion, bylchau ac ansawdd ein darpariaeth bresennol o wasanaethau. Rydym hefyd yn awyddus i glywed syniadau dinasyddion.

**Gwasanaethau Addysg a Phlant**

Rydym wedi ymrwymo o hyd i gynnwys dinasyddion wrth lunio'r gwasanaethau a ddarparwn. Mae ein prosiect cyfredol ar gyfer 'casglu lleisiau plant, pobl ifanc a theuluoedd' wedi parhau i wella'r ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a theuluoedd wrth ddarparu gwasanaethau ac yn ein prosesau ar gyfer casglu eu hadborth ac ymateb iddo.

Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cymryd rhan yn y prosiect hwn ac wedi sbarduno defnydd cynyddol o dechnoleg symudol a chyfryngau cymdeithasol yn ein dull o gynnwys ac ymgysylltu. Mae'r prosiect hwn yn gysylltiedig hefyd â grŵp gorchwyl a sefydlwyd gan Grŵp Darparu Gwasanaethau Lleol y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant sy'n ystyried ffyrdd o roi llais cryfach i blant a phobl ifanc mewn prosesau a gweithgareddau diogelu. Mae'r prosiect wedi arwain at greu fforwm pobl ifanc y Clwb Kids in Care (KiC) a grŵp caeedig ar Facebook ar gyfer Gofalwyr Maeth. Mae 16 o aelodau ar y wefan Facebook ar hyn o bryd ac mae hon yn ffordd ychwanegol o gael adborth a rhoi mwy o allu i gael gafael ar wybodaeth allweddol am faterion fel hyfforddiant, hysbysiadau am ddigwyddiadau, ac ar dempledi ffurflenni.

Mae'r Clwb KiC wedi bod yn gyfrwng i wella math ac ansawdd y wybodaeth a ddarparwn i'r plant a theuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw. Mae ein Gwefan yn cynnwys Taflenni Ffeithiau newydd i blant a'u teuluoedd yn ogystal â dulliau newydd o ddarparu adborth. Mae wedi cyfrannu at greu proffiliau o bob un o'n Swyddogion Adolygu Annibynnol a roddir i blant pan fyddant yn cael eu derbyn i ofal.

Roedd y Clwb KiC wedi cyfrannu hefyd i sesiwn ar ***Beth yw Gofalwr Maeth Da*** er mwyn casglu eu barn a'u dymuniadau am Leoliadau Gofal Maeth a diffinio'r wybodaeth y mae angen i Ofalwyr Maeth ei chael am y plant a phobl ifanc sy'n dod i'w cartrefi. Yn ystod y digwyddiad hwn, gweithiodd y Grŵp gyda bît-bocsiwr i gyfansoddi cân rapio sy'n pwysleisio beth mae'r plant yn eu gweld yn nodweddion hanfodol mewn Gofalwyr Maeth. Mae'r gân hon wedi'i chynnwys bellach yn ein pecyn hyfforddiant a recriwtio i Ofalwyr Maeth.

Yn Hydref 2016, cyflwynwyd Tystysgrif Cyflawniad i Dîm Plant sy'n Derbyn Gofal Sir Ddinbych yng Nghynhadledd Genedlaethol Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain - Cymru (BASW) i gydnabod ei waith gyda'r Clwb KiC. Roedd Pwyllgor BASW yn cydnabod bod hyn wedi galluogi'r Grŵp Ymarfer Plant sy'n Derbyn Gofal i glywed llais y plentyn ac i ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddylanwadu ar ymarfer. Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol *"Mae ein Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal yn cyflawni gwaith rhagorol sydd wedi'i gydnabod ar lefel genedlaethol. Rydym yn falch o gyflawniadau'r Tîm ac yn eu llongyfarch yn galonnog ar eu llwyddiant."*

Mae'r mewnbwn gan y plant, y bobl ifanc a'r Gofalwyr Maeth hyn wedi newid ein dull o weithredu, ac wedi arwain at gynnydd yn yr adborth a gawn gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae ein dogfennau ymgynghori ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn rhoi mwy o sylw i ganlyniadau llesiant personol ac mae hyn wedi cryfhau perthnasoedd â'r plant, pobl ifanc a theuluoedd y mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda nhw.

Mae'r Gwasanaeth yn casglu adborth oddi wrth bobl a gafodd gymorth gan Wasanaethau Addysg a Phlant drwy nifer o arolygon cynlluniedig: ein harolygon 'Dweud eich Dweud', yr arolwg o Ansawdd Gofal ac arolwg ansoddol blynyddol Llywodraeth Cymru. Bydd yr adborth o'r arolwg Dweud eich Dweud yn cael ei goladu a'i ddadansoddi bob chwarter blwyddyn yn ein Hadroddiad Cynnydd Fframwaith Asesu Ansawdd a gaiff ei drafod yng nghyfarfod y Tîm Rheoli ar y Cyd.

Mae'r arolwg Ansawdd Gofal yn cael ei anfon mewn nifer o fformatau gwahanol at Blant, Pobl Ifanc, Rhieni, Gofalwyr Maeth ac Aelodau'r Panel Maethu i gael eu barn am ansawdd y gofal a ddarperir gan y Gwasanaeth Maethu. Llenwyd 34 o holiaduron a'u dychwelyd gyda'r adborth canlynol:

- Roedd y plant a phobl ifanc a ymatebodd yn fodlon ar ansawdd y gofal y maent yn ei gael, yn teimlo'n ddiogel a bod eu llais yn cael ei glywed,

- Mae'r rhan fwyaf o'r Gofalwyr Maeth yn fodlon ar lefel y cymorth y maent yn ei gael ac yn credu bod y rhaglen hyfforddi wedi'u galluogi i fod yn fwy hyderus a gwybodus, ond roedd rhai wedi nodi eu bod am weld mwy o bwyslais ar eu datblygiad fel Gofalwyr Maeth ac adolygiad o'r broses talu,

- Nododd Aelodau o'r Panel fod ansawdd y gofal a gynigir i blant a phobl ifanc yn uchel a bod lefel y wybodaeth a phrofiad o'r Gofalwyr Maeth sydd gan y Staff Maethu yn rhagorol.

Mewn ymateb i'r adborth gan Ofalwyr Maeth, cyflwynwyd adnodd hyfforddi ar-lein ar gyfer Gofalwyr Maeth ac mae'r gwasanaeth wedi cynnal archwiliad mewn perthynas â chofnodi hwyr ar ffurflenni symud ac effaith hynny ar y broses talu. Rydym yn parhau i ystyried ffyrdd gwell byth o ymgysylltu â Gofalwyr Maeth ac o addasu'r fforwm deufisol ar Ofal Maeth i'w galluogi i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu.

Fis Medi diwethaf, roeddem hefyd wedi cylchredeg arolwg newydd ar ran Llywodraeth Cymru ymysg y bobl hynny a gafodd gymorth gan wasanaethau cymdeithasol i ofyn am eu barn am y ffordd y mae'r gwasanaethau a gawsant wedi'u helpu. Byddwn yn anfon holiaduron at bob plentyn neu berson ifanc 7 i 17 flwydd oed a gafodd gynllun gofal a chymorth, eu rhieni a/neu ofalwyr. Roedd 97 o holiaduron wedi'u dychwelyd gan rieni/gofalwyr a 60 gan blant a phobl ifanc. Byddwn yn cyfeirio at rywfaint o'r adborth o'r arolygon hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn o dan yr adrannau perthnasol.

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, rydym wedi adolygu'r cymorth a gweithgareddau sydd ar gael i blant a phobl ifanc ag anabledd. Ein nod oedd ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio neu'n

cysylltu â'n gwasanaethau i adnabod rhwystrau a datblygu atebion i'w trechu. Mae ein pennaeth Gwasanaeth wedi ymgysylltu â grwpiau cymorth rhieni er mwyn gwella'r ddarpariaeth i blant sydd ag Awtistiaeth. Ar ôl ymgynghori, rydym wedi trefnu i ddarparu gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth iawn ar safleoedd ysgol cyfarwydd yn ystod y gwyliau; wedi sefydlu cymorthfeydd Anghenion Addysgol Arbennig ar gyfer rhieni i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol; ac wedi creu pwynt cyswllt arbenigol i helpu plant a rhieni i gael gwybod am y mathau o gymorth sydd ar gael ledled Sir Ddinbych. Ar ddiwedd 2016, roeddem wedi comisiynu tîm o ymgynghorwyr i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, eu rhieni a gofalwyr, grwpiau cymunedol perthnasol a chysylltiedig a'n hysgolion arbennig er mwyn llunio'r gwasanaethau presennol a newydd fel eu bod yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymuned. Un canlyniad nodedig i'r ymgynghoriad hwn oedd sefydlu grŵp o rieni ymroddedig sy'n gallu cydweithio'n agos â ni i wella a datblygu gwasanaethau newydd yn y gymuned.

Yn yr un modd â Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, mae'r Broses Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yn galluogi pobl i helpu i lunio Gwasanaethau Addysg a Phlant. Gweler y paragraff ar dudalen 5 am fanylion.

# 4. Hyrwyddo a Gwella Llesiant y Bobl Rydym yn eu Helpu

## a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl am eu cyflawni

**Gwasanaethau Cymorth Cymunedol**
Un Pwynt Mynediad (UPM) Sir Ddinbych yw'r pwynt cyswllt cyntaf i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae'r UPM yn darparu gwybodaeth am adnoddau yn y gymuned sy'n helpu dinasyddion i aros yn annibynnol a hyrwyddo llesiant. Pan fydd angen cael mynediad i wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, bydd yr UPM yn sicrhau bod pobl a gaiff eu hatgyfeirio yn cael eu hasesu ymhellach. Mae'n cynnig ymateb cydgysylltiedig ac mae wedi parhau i ddarparu gwasanaeth dibynadwy sy'n ymateb yn briodol i'r cyswllt cyntaf yn ystod 2016-2017.

Roedd 20.78% o'r bobl a gysylltodd â'r UPM yn 2016-2017 heb gael eu hatgyfeirio i Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ffurfiol am resymau priodol wedi iddo ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth iddynt. Bydd y Pwyntiau Siarad wedi cyfrannu'n sylweddol at hyn, drwy gyfeirio dinasyddion at sefydliadau yn y gymuned sy'n gallu cwrdd â'u hanghenion cyfredol.

Er mwyn gweld y gwahaniaeth y mae'r UPM yn ei wneud, darllenwch am brofiadau Doris a Glenys yn Adran 6 – Dogfennau Allweddol ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Mae'r clwstwr 'Cam i lawr' o weithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol sydd newydd ei ffurfio yn rhoi cymorth rhagweithiol i bobl adael yr ysbyty cyn gynted ag y maent

yn gallu. Mae'r staff yn cydweithio'n agos â chymheiriaid mewn ysbytai ac yn y gymuned ac mae'r tîm yn gwneud gwahaniaeth mawr yn barod, fel y mae'r data am 'oedi wrth drosglwyddo gofal' i ofal cymdeithasol yn dangos. Cafwyd 25 o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn ystod y flwyddyn ond mae archwiliadau misol yn dangos bod y ffigur hwn wedi gostwng i ddim mewn dau o'r tri mis olaf yn 2016-2017.


Rydym hefyd yn newid ein prosesau ar gyfer trefnu gofal. Yn awr bydd "Cyllideb Cymorth" yn cael ei chynnig i bawb sy'n gymwys i gael gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol oedolion. Bydd hyn yn rhoi'r gallu iddynt reoli'r ffordd y mae eu gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu.

Yn yr adroddiad ar gyfer 2015-2016, roeddem wedi sôn am ein gwaith ar hyrwyddo Cyllidebau Cymorth yn Sir Ddinbych. Rydym wedi cynnal mwy o weithgarwch hyrwyddo yn y maes hwn ac rydym yn bwriadu trefnu ein hymdrechion drwy brosiect gan fod hyn yn parhau'n flaenoriaeth allweddol. Mae 60 o aelodau staff wedi dilyn hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a chafwyd mwy o hyrwyddo ymysg dinasyddion cymwys o ganlyniad i'r ymwybyddiaeth gynyddol o Gyllidebau Cymorth. Ar 31 Rhagfyr 2016 (diwrnod y cyfrifiad), roedd 115 o bobl o dan ofal Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion yn derbyn cymorth parhaus drwy gyllideb cymorth / taliadau uniongyrchol. Yn ogystal â hyn, rhwng Ebrill 2016 a diwedd Rhagfyr 2016, gwnaed 53 o daliadau untro i helpu unigolion a gofalwyr i gwrdd â'u hanghenion.

Byddwn hefyd yn casglu adborth yn ystod yr adolygu parhaus o'r Pwyntiau Siarad. Cafwyd yr adborth canlynol gan ddinasyddion yn ystod y flwyddyn:

- **"Cymorth rhagorol, diolch. Buddiol iawn, syniad da"**
- **"Roedd yn gyfleus iawn ein bod yn gallu galw heibio"**
- **"Defnyddiol iawn. Mae'n dda gwybod eich bod ar gael os bydd angen"**
- **"Profiad buddiol ac roeddwn yn gallu cyflawni llawer. Roeddwn yn teimlo'n gartrefol ac yn gallu sgwrsio'n rhwydd"**
- **"Yn teimlo'n well o lawer – yn deall yn well ar ôl gallu siarad wyneb yn wyneb**
- **"Yn hapus iawn â'r cyngor a roddwyd. Buddiol iawn"**
- **"Mae'n dda gwybod bod pethau fel hyn ar gael i grwpiau a chlybiau bach – pethau na fyddem yn gwybod amdanynt o bosibl"**
- **"Mae'n ddefnyddiol iawn cael y Pwyntiau Siarad bob pythefnos. Mae'n dda gwybod ein bod ni'n gallu galw heibio"**
- **"Mae hyn yn wych. Mae'n syndod beth sydd ar gael"**

Mae gennym broses sefydledig ar gyfer casglu adborth oddi wrth ddinasyddion sy'n oedolion yn unol â mesurau perfformiad Llywodraeth Cymru. Byddwn yn defnyddio'r adborth hwn i wella ein gwasanaethau ac ar gyfer cynnal ein prosesau sicrhau ansawdd. Mae nifer o'r cwestiynau yn ein holiaduron presennol i ddinasyddion yn berthnasol i




Ganlyniad 1, ac roedd yr ymatebion a gawsom i'r cwestiynau hyn wedi parhau'n gadarnhaol iawn yn ystod 2016-2017.

**Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:**

- Adolygu'r UPM a'r Pwyntiau Siarad a'u datblygu ymhellach gyda phartneriaid presennol a newydd fel y byddant yn effeithiol, yn effeithlon ac yn addas i'w diben yn y byd modern
- Cynllunio a chynnal prosiect i sicrhau bod ystyried Cyllidebau Cymorth yn rhan annatod o'r broses asesu a chynllunio cymorth sydd yn ei thro'n hyrwyddo llesiant y bobl rydym yn ceisio eu helpu.

**Gwasanaethau Addysg a Phlant**

**Beth roeddem wedi bwriadu ei wneud y flwyddyn ddiwethaf?**

Ein prif amcan yn ystod 2016-2017 oedd sicrhau bod y broses o gyfuno Gwasanaethau Addysg a Chymorth Addysg, ynghyd â Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus a'i chyfnerthu. Roedd y broses cyfuno'n newid mawr mewn maes sensitif a risg uchel felly roedd wedi'i chynllunio'n ofalus a'r sail resymegol i gyfuno'r meysydd gwasanaeth wedi'i chyfleu'n glir iawn. Mae'r gwasanaeth newydd wedi canolbwyntio ar elwa o'r cyfleoedd a geir drwy'r agenda ar foderneiddio ac ar ailstrwythuro er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cydlynus, effeithiol ac effeithlon yn cael eu darparu. Roedd y ddau wasanaeth wedi'u cyfuno nid yn unig er mwyn dod â nhw o dan reolaeth un Pennaeth Gwasanaeth, ond hefyd er mwyn eu hintegreiddio'n llwyr i sicrhau dull cydlynus ac unol o weithredu, i ddarparu gwell gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Mae cyfuno'r gwasanaethau wedi ein helpu hefyd i weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant er mwyn darparu gwasanaethau sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant pobl a chymell dinasyddion i gymryd mwy o ran mewn penderfyniadau am eu gofal personol. Bydd ein ffocws ar ymyrryd yn gynnar ac atal anghenion rhag cynyddu yn helpu pobl i gynnal eu llesiant a'u cydnerthedd eu hunain ac i sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu drwy leihau'r risg iddynt gael eu cam-drin neu brofi camfanteisio.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ddatblygu a gwella ein gwasanaeth Porth Cymorth Plant a Theuluoedd ar gyfer plant, pobl ifanc, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol.  Ym Mai 2016, lansiwyd set newydd o brosesau i ddarparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer gwasanaethau statudol a gwasanaethau ymyrraeth gynnar yn Sir Ddinbych. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwahanol fathau o gyngor a chymorth mewn un lle. Mae'r tîm wedi'i ddatblygu ac wedi cael hyfforddiant ar gynnal sgyrsiau effeithiol sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau gyda'r rheini sy'n cysylltu â'n gwasanaeth.

Bydd pobl yn cysylltu â'n gwasanaeth am amrywiaeth o resymau ac, er bod mwyafrif yr ymholiadau'n ymwneud ag atgyfeiriadau i wasanaethau cymdeithasol ynghylch pryderon am blentyn, mae mwy o bobl yn cysylltu â ni i wneud cais am wybodaeth neu i gael cymorth mewn perthynas â materion ehangach sy'n effeithio ar lesiant eu plant neu deuluoedd. Yn ystod y 11 mis cyntaf o weithredu, mae'r tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth wedi ymateb i 2,175 o geisiadau am wybodaeth a mwy na 4,749 o geisiadau am gyngor a/neu gymorth.

Lle mae teuluoedd yn cael eu cynghori i gysylltu â'n gwasanaeth ymyrraeth gynnar Teuluoedd yn Gyntaf, neu'n cael eu hatgyfeirio iddo, byddwn yn defnyddio Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) sy'n cymell y teulu ac asiantaethau i gydweithio i asesu anghenion y teulu cyfan ac ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o ddelio â'r anghenion hynny. Mantais y model hwn yw ei fod yn rhoi'r teulu cyfan ar ganol ein dull o weithredu. Mae'n sicrhau asesu cyfannol o gryfderau ac anghenion y teulu ac yn creu mwy o ymdeimlad o berchenogaeth a grymuso ymysg teuluoedd. Yr asesiad ar y cyd yw'r sail i'r model Tîm o Amgylch y Teulu sy'n gweithredu'n gydlynol ar sail amlasiantaethol i ddiwallu anghenion pob teulu ar ôl eu hasesu. Y teulu yw aelodau craidd y Tîm o Amgylch y Teulu, nhw sydd

biau'r cynllun gweithredu, maent yn cymryd rhan ym mhob cyfarfod amlasiantaethol, ac mae pob aelod o'r teulu'n gwneud defnydd o offeryn sy'n mesur 'y pellter a deithiwyd' (ar ddechrau a diwedd ei gyfnod gyda'r tîm mewn meysydd gwahanol e.e. iechyd a llesiant emosiynol, perthnasoedd a bywyd cymdeithasol, sgiliau rhianta, amgylchedd y cartref).

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae 249 o deuluoedd wedi cymryd rhan mewn Asesu'r Teulu ar y Cyd. Yn ystod yr un cyfnod, roedd 121 o deuluoedd wedi gadael y gwasanaeth ar ôl cael canlyniad llwyddiannus mewn perthynas â'u Cynllun Gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu. O dan y cynlluniau gweithredu hynny, mae aelodau o deuluoedd wedi cael mwy na 3,910 o ymyriadau cymorth, e.e. gwaith grŵp, rhianta a chymorth ieuenctid.

Mae'r prosiect 'Dulliau Newydd o Ymarfer' wedi ymgysylltu â phob rhanbarth yng Nghymru i ddatblygu templedi a pholisïau asesu newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn hwyluso'r newidiadau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Bydd y rhain yn ategu ac yn cadarnhau ein dull o gofnodi canlyniadau llesiant personol y dechreuwyd gweithio arno y flwyddyn nesaf drwy ein prosiect peilot ar y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Darparwyd rhaglen hyfforddi helaeth ar lefel ranbarthol i helpu'r gweithlu i roi'r dulliau newydd hyn ar waith.

Yn ein harolwg blynyddol o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chymorth oddi wrth wasanaethau cymdeithasol, dywedodd 83% o'r plant a phobl ifanc a ymatebodd eu bod yn fodlon ar y gofal a chymorth a gawsant a dywedodd 73% fod eu barn am eu gofal a chymorth wedi cael ei chlywed. Hefyd dywedodd 63% o rieni a gofalwyr eu bod wedi cymryd rhan yn yr holl benderfyniadau am y ffordd o ddarparu gofal a chymorth i'w plentyn neu blant.

**Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:**

- Byddwn yn ailstrwythuro gwasanaethau rheng flaen i sicrhau bod y dull integredig o weithredu'r strategaeth ymyrryd ac atal yn cydymffurfio ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Byddwn yn parhau i wella ansawdd ac ystod ein Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth drwy gydweithio â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y Gwasanaeth Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Cwsmeriaid Corfforaethol i ennill achrediad gan y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol i Gyngor Sir Ddinbych
- Byddwn yn integreiddio'r templedi a chanllawiau newydd ar gyfer asesu â'n systemau presennol ar gyfer rheoli achosion er mwyn helpu i sefydlu diwylliant newydd y Dulliau Newydd o Ymarfer a sicrhau bod asesiadau'n gymesur, yn rhoi sylw helaeth i farn y plentyn neu berson ifanc ac yn adlewyrchu canlyniadau llesiant personol y rhai sydd wedi'u hasesu
- Byddwn yn parhau i fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu cwmpas ein prosiect 'casglu barn plant, pobl ifanc a theuluoedd' drwy wneud defnydd arloesol o gyfryngau digidol a chymdeithasol


## b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u llesiant emosiynol

**Gwasanaethau Cymorth Cymunedol**

Rydym yn gwybod ein bod yn gryfach wrth weithio gyda'n gilydd i sicrhau'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer iechyd a llesiant pobl Sir Ddinbych. Dyna pam roeddem wedi cychwyn ar gynllun uchelgeisiol yn 2016-2017, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i sefydlu **Timau Adnoddau Cymunedol** integredig ar draws Sir Ddinbych a fydd yn cydweithio'n agos â phractisau meddygon teulu.

Rydym yn rhannu'r weledigaeth o ddarparu gwasanaethau cymunedol cynhwysfawr, hyblyg ac ymatebol a fydd ar gael bob awr o'r dydd a nos.  Y disgwyliad yw y bydd timau integredig, sy'n cynnwys Nyrsys Ardal, Nyrsys Cymunedol, Nyrsys Arbenigol, Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion, Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol, Gweithwyr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Llywyr Cymunedol, yn darparu gwasanaethau gyda'i gilydd i boblogaethau penodedig o ganolfannau a rennir.  Bydd hyn yn rhoi'r gallu i ddarparu mwy o ofal a chymorth yn y gymuned a fydd yn hyrwyddo llesiant ac yn cryfhau cymunedau. Ymyrraeth gynnar, atal neu ohirio dibyniaeth ac ailalluogi amserol ac effeithiol fydd amcanion allweddol y timau, yn ogystal â darparu gofal amserol o ansawdd da ar ddiwedd oes mewn lleoliad o ddewis y person.

Y gwahaniaeth yr ydym yn gobeithio ei weld drwy waith y timau adnoddau cymunedol integredig hyn yw mai unwaith yn unig y bydd dinasyddion yn gorfod dweud eu hanes ac y bydd llai o staff o'r gwahanol asiantaethau'n ymweld â chartrefi pobl gyda'u prosesau asesu gwahanol. Gobeithir y bydd y gwasanaeth integredig yn fwy hyblyg ac ymatebol ac wedi'i seilio ar 'yr hyn sy'n bwysig' i unigolion wrth i'r cyfathrebu wella rhwng y gwahanol weithwyr proffesiynol sy'n cymryd rhan. Canolbwyntir ar hyrwyddo a chynnal annibyniaeth a lle bo hynny'n bosibl bydd pobl yn cael eu rhoi mewn cysylltiad ag amrywiaeth o wasanaethau cynghori ar iechyd a llesiant yn y gymuned leol, gyda chymorth y trydydd sector ac eraill. Disgwylir y bydd hyn yn rhoi mwy o allu i bobl ymdopi ag argyfyngau a sefyllfaoedd eraill sy'n achosi straen neu orbryder.




Y flwyddyn ddiwethaf, roeddem wedi adrodd ar y cynnydd a gafwyd ar ein cynlluniau i leihau nifer y bobl hŷn yn Sir Ddinbych sydd ag angen byw mewn cartref gofal preswyl. Cyflawnir hyn drwy ddarparu cymorth amserol a phriodol sy'n galluogi pobl i barhau i fyw bywyd bodlon ac annibynnol, gan aros yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain.

Un o'r ffactorau allweddol ar gyfer cadw pobl mor annibynnol â phosibl yw datblygu Cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol. Mae tri chynllun o'r fath yn Sir Ddinbych a'r flwyddyn ddiwethaf dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu cynlluniau ychwanegol, yn cynnwys adeiladu cynllun newydd â 51 o randai yn Ninbych. Ym Mawrth 2017, rhoddwyd cymeradwyaeth gan Aelodau Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych i adeiladu 70 o randai gofal ychwanegol.

Cyflwynwyd y cais gan Grŵp Cynefin, y gymdeithas dai a ddewiswyd gan Gyngor Sir Ddinbych i baratoi cynigion ar gyfer cynllun gofal ychwanegol yn y dref. Bydd y datblygiad o 70 o unedau llety yn cynnwys 42 o randai â dwy ystafell wely a 28 o randai ag un ystafell wely ar gyfer pobl sydd ag anghenion gofal ychwanegol a byw â chymorth, a lle byw cymunedol i bedwar unigolyn sydd ag angen gofal a chymorth mwy ffurfiol. Bydd cyfleusterau cymunol hefyd yn y prif adeilad gofal ychwanegol, yn cynnwys cyfleusterau arlwyo mewn caffi i helpu'r rheini sydd â llai o allu i baratoi prydau bwyd ac i roi cyfle i breswylwyr fwyta gyda'i gilydd.

Mae'n bwysig ein bod yn galluogi pobl i deimlo'n ddiogel, gan fod y canfyddiad o ddiogelwch yr un mor bwysig i'r unigolyn yn aml ag y mae diogelwch fel y cyfryw. Yn ein harolygon presennol o fodlonrwydd dinasyddion sy'n oedolion, byddwn yn gofyn a ydynt yn teimlo'n ddiogel. Cyfran y dinasyddion sy'n oedolion a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn yn ystod 2016-2017 oedd 92% (401 o 437). Mae hyn ychydig yn is na'r 95% (396 o 416) y flwyddyn flaenorol. Nodwyd bod nifer mawr o'r ymatebion yn dweud mai ofn syrthio yw'r broblem. Rhoddwyd adborth ar hyn i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i ddarparu Gwasanaeth Atal Syrthio yn Sir Ddinbych.

**Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:**

- Bydd y Tîm Adnoddau Cymunedol cyntaf yn Sir Ddinbych yn gwasanaethu ardal y Rhyl a bydd yn fan cychwyn ar gyfer darparu'r gwasanaeth gorau posibl gyda'n gilydd. Yn Ebrill 2017, bydd staff yn cael eu cydleoli yn Ysbyty Brenhinol Alexandra. Bydd yn bwysig ystyried y ffordd orau o gydweithio a'n blaenoriaeth ar gyfer 2017/2018 fydd sefydlu arferion gweithio integredig ac un hunaniaeth i'r tîm. Mewn rhannau eraill o'r Sir lle nad yw cydleoli'n bosibl ar hyn o bryd, byddwn yn ceisio gwella arferion gweithio integredig.
- Byddwn yn parhau i allanoli ein darpariaeth fewnol ac yn bwrw ymlaen â'r prosesau tendro ffurfiol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir ar safleoedd Hafan Deg, Awelon, a Dolwen, gan ystyried ac edrych ymhellach ar y posibilrwydd o godi estyniad ar gyfer rhandai byw â chymorth yn Cysgod y Gaer.

**Gwasanaethau Addysg a Phlant**

Mewn ymateb i nifer sylweddol o ymholiadau i'r Porth Cymorth Plant a Theuluoedd ynghylch cymorth i blant sydd ag anghenion ychwanegol, rydym wedi creu swydd arbenigol y **Cydlynydd Llesiant Anabledd** i weithio ar draws gwasanaethau statudol a gwasanaethau ymyrraeth gynnar i ddarparu cyngor a chymorth teilwredig i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr i'w helpu i gyflawni eu hamcanion llesiant personol.

Mae'r Cydlynydd Llesiant Anabledd wedi treulio amser yn ymweld â grwpiau cymunedol lleol, clybiau ac elusennau sy'n gallu darparu cymorth i blant ag anableddau ac wedi

defnyddio'r wybodaeth honno i gynghori pobl a'u helpu i sicrhau'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae hefyd wedi ymgysylltu â grwpiau o rieni i osod y sylfeini ar gyfer rhwydwaith cynghori fel y gallwn barhau i gydweithio i ddatblygu gwasanaethau yn y gymuned.

Mae'r adborth a gafwyd gan rieni a phlant yn ystod y tri mis cyntaf o waith y Cydlynydd Llesiant Anabledd wedi bod yn gadarnhaol iawn. Cafwyd y sylw canlynol gan riant i un plentyn ar ôl cyfarfod cyntaf y Grŵp Cynghorol Rhieni: *"Mae'n dda gwybod bod Sir Ddinbych am ddod o hyd i ffyrdd o helpu plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i gymryd rhan mewn gweithgareddau... Rwyf am ddiolch i chi am gychwyn y broses. Rwy'n credu mai dechrau'r daith yw hwn."*

Mae'r Grŵp Iechyd a Llesiant mewn Ysgolion yn bartneriaeth amlasiantaethol sy'n gweithredu mewn ffordd gyson a chydlynol mewn ysgolion i wella canlyniadau iechyd a llesiant y plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych, gan ganolbwyntio ar annibyniaeth a chydnerthedd. Mae'r grŵp yn fforwm ar gyfer trafod ymyriadau iechyd a llesiant newydd ac adolygu eu heffeithiolrwydd a gwerthoedd. Mae'n ystyried ffyrdd o ddarparu gwasanaethau yng nghyd-destun gwybodaeth am iechyd a llesiant ac arferion seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys darparu adnoddau, hyfforddiant, ymarfer a datblygu polisi. Mae'r grŵp wedi trafod a chyfrannu at ddatblygu polisi a phrosesau ar sail nifer o themâu iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddyliol ac emosiynol, hunan-niweidio, bwlio, e-ddiogelwch, camfanteisio rhywiol, tybaco, camddefnyddio sylweddau, gordewdra, maeth, gweithgarwch corfforol, iechyd rhywiol a chymorth i ofalwyr ifanc.

Mae llwybr hunan-niweidio cydasiantaethol wedi'i ddatblygu a'i weithredu rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), CAMHS arbenigol a Gwasanaethau Addysg Awdurdod Lleol Sir Ddinbych i ddarparu ymateb diogel a chymorth er mwyn helpu pobl ifanc sy'n eu niweidio eu hunain. Mae'r llwybr yn rhoi diffiniad clir o'r hyn sydd angen ei wneud a pha bryd, pwy ddylai ei wneud a phwy sy'n gyfrifol am beth, ar bob cam. Mae'n sicrhau, ar ôl datgelu hunan-niweidio am y tro cyntaf, y bydd Swyddog Cyswllt Hunan-niweidio yn gwrando'n dosturiol ar y person ifanc, yn casglu gwybodaeth gychwynnol am yr hyn sydd wedi digwydd, sut mae'r person ifanc yn teimlo ac yn cysylltu ag arbenigwr CAMHS i drafod a chytuno ar gynllun rheoli risg dechreuol. Ar raddfa ehangach, mae rheolwyr trefniadol yn cwrdd i ddatblygu rhaglen hyfforddi amlasiantaethol i'r holl weithwyr proffesiynol ar gyfer ymateb i ddatgelu hunan-niweidio gan blant a phobl ifanc.

Parhawyd i gynyddu'r ddarpariaeth o gymorth i Ofalwyr Ifanc yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Rydym wedi cydweithio'n agos â Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc/Credu Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych (y ddarpariaeth is-ranbarthol a gomisiynwyd ar gyfer gofalwyr ifanc) i ddarparu cymorth, gan gynnwys: gwybodaeth a chyngor, gweithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol, cymorth yng nghyswllt cydnerthedd a llesiant personol, cludiant, cwnsela, eirioli a chydgysylltu â gwasanaethau addysg, gwasanaethau cymunedol, a gweithwyr iechyd proffesiynol. Prif nod y gwasanaeth yw lliniaru effaith y rôl gofalu ar y plentyn/person ifanc. Yr anghenion a nodir amlaf ymysg gofalwyr ifanc yw'r angen am seibiant a chyfleoedd i gymdeithasu (rhoi amser iddynt fod yn blant); meithrin cydnerthedd, llesiant emosiynol a hunan-barch; yr angen i gymryd rhan mewn rhwydweithiau cymorth cymheiriaid gyda

gofalwyr ifanc eraill sy'n deall; cymorth gydag addysg a dysgu; a chymorth eirioli i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Ar ddiwedd Tachwedd 2016, roedd y gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn cynorthwyo 174 o blant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych. Mae nifer y gofalwyr ifanc a gofnodwyd wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf am fod nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu o ganlyniad i hybu ymwybyddiaeth ymysg asiantaethau sy'n bartneriaid i ni ac yn dilyn prosiect peilot ar gyfer gwella iechyd a llesiant emosiynol gofalwyr ifanc. Mae ein Nyrs Arbenigol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn parhau i dynnu sylw at anghenion iechyd y cohort hwn o blant ac yn ceisio sicrhau cyd-ddealltwriaeth â'n cymheiriaid mewn gwasanaethau iechyd o bwysigrwydd y gwaith hwn a'r angen i gasglu a chofnodi gwybodaeth. Mae'r nyrs arbenigol yn ymgymryd â rhywfaint o waith asesu gyda'r cohort o bobl ifanc nad ydynt yn cadw apwyntiadau a drefnwyd, a hynny'n cynnwys cynnig gwybodaeth am iechyd rhywiol, i unigolion ac i grwpiau sydd wedi cytuno i gwrdd.

Mae ein perthynas â chymheiriaid mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn parhau'n gryf. Bydd grŵp rheolwyr ac ymarferwyr yn cwrdd bob mis i drafod achosion a phryderon penodol, i rannu gwybodaeth ar themâu cyffredinol ac i sicrhau perthnasoedd gweithio agos ac ymgynghori prydlon. Mae aelodau o'r Gwasanaeth Therapiwtig hefyd yn gweithio un diwrnod yr wythnos gyda chymheiriaid yn CAMHS, ac mae'r trefniant hwn yn fanteisiol i'r ddwy asiantaeth. Er bod rhestrau aros yn parhau'n hir, rydym yn gallu rhoi rhai achosion cymhleth ar lwybr cyflym lle mae pryderon sylweddol gan y ddwy asiantaeth.

**Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:**

- Byddwn yn creu Strategaeth Ymyrryd ac Atal ar gyfer y gwasanaeth cyfan i ddarparu ar gyfer materion iechyd meddwl lefel isel mewn ysgolion cynradd ac yn gweithio mewn partneriaeth â BIPBC, y Trydydd Sector a'r Heddlu
- Byddwn yn integreiddio ymhellach y ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth er mwyn darparu gwasanaethau cydlynus ac yn cydweithio drwy'r flwyddyn
- Byddwn yn datblygu ein prosesau a gwasanaethau i roi gwell cymorth i gwrdd ag anghenion llesiant emosiynol plant sy'n derbyn gofal
- Byddwn yn ehangu ein harlwy o wasanaethau er mwyn sicrhau bod plant ag anghenion ychwanegol cymhleth yn cael dewis o gyfleoedd i wireddu eu potensial a chwrdd â'u hanghenion cymdeithasol

## c) Cymryd camau i ddiogelu ac amddiffyn pobl rhag eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio

Sefydlwyd rhaglen ddiogelu gorfforaethol ac mae rheolwyr diogelu arweiniol wedi'u dynodi ar gyfer holl adrannau'r Cyngor. Cyflwynwyd rhaglen dreigl i hybu ymwybyddiaeth staff rheng flaen o'u cyfrifoldebau i roi gwybod am bryderon ynghylch plant a phobl sydd mewn perygl ac am bryderon o ran diogelu. Mae hyfforddiant ar-lein ar ddiogelu wedi'i gynllunio ar gyfer yr holl staff ac mae'n cael ei ddarparu. Mae cydymffurfiaeth â chanllawiau ar

recriwtio diogelach yn cael ei monitro'n fanwl, ac mae lefelau'r recriwtio diogel yn codi ym mhob adran.

**Gwasanaethau Cymorth Cymunedol**

Y flwyddyn ddiwethaf, roeddem wedi adolygu gweithrediad ein prosesau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a chyfansoddiad y Tîm Diogelu Oedolion i sicrhau bod y prosesau diwygiedig wedi cael eu gweithredu'n llawn er mwyn ymateb i bryderon a fynegwyd gan AGGCC a hefyd er mwyn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Ym Mehefin 2016, sefydlwyd prosiect Prawf Newid i ganolbwyntio ar gam ymchwilio'r broses diogelu, a secondiwyd uwch ymarferydd o dîm ardal i ymgymryd â'r dasg. Cafwyd bod hyn yn llwyddiant mawr gan fod y broses ar gyfer y cam ymchwilio yn gliriach o lawer ac roedd y perfformiad ar yr amserlen 7 diwrnod gwaith ar gyfer ymateb yn dda – cwblhawyd 75% o ymchwiliadau o fewn y cyfnod hwn. Roedd y newid hwn mewn ymarfer yn golygu bod y Timau eraill yn gweithio'n fwy effeithlon. Roedd 67% o'r ymchwiliadau'n gysylltiedig ag achosion a fyddai wedi cael eu trafod o'r blaen gan dimau ardal a thimau eraill. Cafwyd adborth cadarnhaol hefyd gan sefydliadau sy'n bartneriaid i ni, sef yr heddlu a sefydliadau iechyd yn bennaf. Mae'r broses hon wedi'i mabwysiadu bellach yn y broses ddiogelu brif ffrwd.

Rhai gweithgareddau eraill a gafwyd yw:

- Cwblhau camau gweithredu yn y cynllun gweithredu Archwiliad Mewnol.
- Llunio a chyflawni cynllun gweithredu manwl mewn ymateb i bryderon AGGCC
- Adleoli Uwch Ymarferydd yn barhaol i'r Tîm Diogelu o ganlyniad i lwyddiant y prosiect Prawf Newid
- Datblygwyd fframwaith adrodd a fydd yn cael ei fonitro gan yr Uwch Dîm Rheoli yn ogystal â Grŵp Cyflawni Diogelu Oedolion Conwy a Sir Ddinbych. Cwblheir y gwaith hwn ar ôl cytuno ar fframwaith adrodd (set data) Llywodraeth Cymru.
- Cynnal gweithdy gydag Awdurdod Lleol Gwynedd a AGGCC a oedd o gymorth i ddeall arferion da mewn perthynas â rheoli prosesau.

**Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:**

- Ein blaenoriaethau ar gyfer Diogelu Oedolion y flwyddyn nesaf yw rhoi prosesau a strwythurau diwygiedig ar waith i gynnal y trefniadau ar gyfer diogelu oedolion sydd mewn perygl o gael eu niweidio, neu'n cael eu niweidio. Bydd hyn yn cynnwys swydd Gwaith Cymdeithasol newydd a ffurflen archwilio newydd.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu ymarferwyr cymwys a hyderus ym maes diogelu drwy gynnal dadansoddiad pellach o anghenion hyfforddi a gweithredu cynllun datblygu hyfforddi a mentora ar gyfer arferion diogelu. Byddwn hefyd yn cynnal prosiect prawf newid ychwanegol mewn perthynas â phrosesau a strwythurau diogelu.
- Byddwn yn gwneud hyn er mwyn cydgysylltu a hwyluso'r broses o ddiogelu oedolion mewn perygl yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac,

wrth gyflawni'r nod hwn, rydym yn bwriadu hyrwyddo llesiant oedolion yn Sir Ddinbych drwy weithio amlasiantaethol.

**Gwasanaethau Addysg a Phlant**

Roedd y broses o sefydlu'r Gwasanaethau Addysg a Phlant newydd yn cynnwys adolygiad o'r strwythur rheoli, a sefydlwyd rolau newydd i gyflawni cylchoedd gwaith y ddwy ran o'r gwasanaeth. Mae'r Rheolwr Diogelu ac Adolygu yn aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ar y Cyd ac mae'n cyfrannu at gyflawni'r agenda gyffredinol ar ddiogelu yn y Gwasanaeth cyfan.

Mae'r Uned Ddiogelu wedi gwella a chryfhau ei pherfformiad ar gynnal cynadleddau amddiffyn plant ac adolygiadau o Blant sy'n Derbyn Gofal o fewn amserlenni pendant, ac mae nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod iddynt yn cynyddu'n raddol. Mae Swyddogion Diogelu ac Adolygu wedi parhau i ehangu eu dulliau o ymgynghori â phlant a phobl ifanc gan gynyddu effaith eu barn ar ganlyniadau. Yn ogystal â hyn, parheir i ddefnyddio ffurflenni adborth ar ôl cynnal Cynhadledd er mwyn casglu gwybodaeth oddi wrth deuluoedd ac asiantaethau sy'n bartneriaid i ni am ffyrdd o wella Cynadleddau.

Rydym yn parhau i ddefnyddio'r dull Arwyddion o Ddiogelwch i asesu risg mewn cynadleddau amddiffyn plant. Mae gwerthusiadau o effaith y dull hwn, yn cynnwys y rheini gan ddefnyddwyr gwasanaethau, yn awgrymu ei fod yn helpu i ddiffinio pryderon a chryfderau er mwyn llunio cynlluniau amddiffyn effeithiol a sicrhau gwell canlyniadau i deuluoedd sydd â phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Cyflwynwyd rhaglen archwilio gynhwysfawr i sicrhau ansawdd ar draws gwasanaethau plant, ac mae hyn yn cynnwys asesiad manwl o hapsampl o ffeiliau achos ac arsylwi gan swyddogion adolygu annibynnol ar arferion rheng flaen. Adolygir y rhaglen archwilio hon ar ddiwedd y flwyddyn a bydd hyn yn helpu i gryfhau arferion da ar draws y gwasanaeth.

Mae'r agenda ar Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig wedi'i hen sefydlu o fewn yr awdurdod ac mae'r cynllun gweithredu ar ôl yr adolygiad diweddaraf ECPR 2 yn cael ei gyflawni ar draws y gwasanaeth. Bydd diweddariad o'r cynllun gweithredu hwn yn cael ei rannu yng nghyfarfod Grŵp Adolygu Ymarfer Diogelu Plant Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr.

Mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno cynllun peilot llwyddiannus ar gyfer **canolbwyntio ar ganlyniadau** wrth weithio gyda theuluoedd agored i niwed a oedd ag angen gofal a chymorth neu a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Roedd hyn yn golygu gwrando ar deuluoedd a negodi'r "hyn sy'n bwysig" iddynt a chreu pecynnau cymorth mwy effeithiol. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu ehangu'r dull hwn o weithio gyda theuluoedd yn y dyfodol.

Mae'r Uned Ddiogelu yn parhau i annog pobl ifanc (lle bo'n briodol) i ddod i adolygiadau a chynadleddau Plant sy'n Derbyn Gofal i siarad am eu profiadau a chymryd rhan mewn llunio eu cynlluniau gofal ac amddiffyn. Yn yr amgylchiadau sy'n arwain at gynnal Adolygiad Ymarfer Plant o dan y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant, mae rhieni'n cymryd rhan drwy roi eu safbwynt ar yr hyn a ddigwyddodd a'r gwersi i'w dysgu ar gyfer y dyfodol. Bydd Rheolwr yr Uned Ddiogelu yn mynychu ac yn cyfrannu i gyfarfodydd Grwpiau Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru, yn cynnwys y Grŵp Polisi a Gweithdrefnau a'r Grŵp Adolygiadau Ymarfer

Plant. Pwrpas y gwaith hwn yw sicrhau bod Sir Ddinbych yn cymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd a bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i ymarferwyr.

Gellir gweld pa mor effeithiol yw ein gweithgareddau ymyrryd cynnar wrth atal uwchgyfeirio achosion i wasanaethau statudol yn nifer isel yr achosion a gaiff eu hatgyfeirio i Wasanaethau Cymdeithasol Plant gan y gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu. Yn y flwyddyn ddiwethaf, dim ond 18 o'r 249 o achosion (7%) a gaewyd gan y gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu a gafodd eu huwchgyfeirio i wasanaethau cymdeithasol.

Y flwyddyn hon, mae holl aelodau'r gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu wedi derbyn hyfforddiant ar *Arwyddion o Ddiogelwch* a drefnwyd gan Uned Ddiogelu Sir Ddinbych. Mae hyn wedi rhoi mwy o allu iddynt adnabod materion sy'n peri pryder a ffactorau amddiffyn a geir o fewn y teulu er mwyn rheoli ac ymateb i'r pryderon a nodwyd mewn ffordd fwy cynhwysfawr.


**Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:**

- Byddwn yn canolbwyntio gofal, cymorth ac amddiffyniad ar y plant a phobl ifanc hynny sy'n agored i niwed ac wedi'u nodi'n rhai sy'n cael profiadau niweidiol yn eu plentyndod
- Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Derbyn ac Ymyrryd er mwyn cryfhau'r rhyng-gysylltiad rhwng gwasanaethau ymyrryd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol statudol
- Sicrhau bod yr holl Gynlluniau Amddiffyn Plentyn yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn cynnwys canlyniadau ymarferol
- Byddwn yn cynnal archwiliad o'r holl Gynlluniau Amddiffyn Plentyn ar draws y gwasanaeth
- Sicrhau bod Cynlluniau Gofal a Chymorth Plant sy'n Derbyn Gofal yn addas i gwrdd â'u hanghenion penodol ac yn parhau i gael eu hadolygu'n amserol. Byddwn yn archwilio'r Cynlluniau Plant sy'n Derbyn Gofal i sicrhau cydymffurfiaeth.
- Bydd Rheolwr yr Uned Ddiogelu yn parhau i gadeirio cyfarfodydd misol y Panel Camfanteisio Rhywiol ar Blant ac yn cyfrannu at lunio'r Cynllun Gweithredu Camfanteisio Rhywiol ar Blant yn unol â gofynion Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.

## d) Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas


**Gwasanaethau Cymorth Cymunedol**

Mae nifer o fesurau perfformiad newydd wedi'u sefydlu gan Lywodraeth Cymru i helpu awdurdodau lleol i werthuso eu llwyddiant mewn perthynas â'r Safon Ansawdd hon. Er enghraifft, yn ein harolygon bodlonrwydd presennol ar gyfer dinasyddion sy'n oedolion, byddwn yn gofyn:




Roedd sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn dangos bod gan rai dinasyddion ffrindiau a chymdogion yn eu cymuned leol y byddant yn rhannu eu amser â nhw ac yn gofyn am gymorth ganddynt

pan fo angen. Dywedodd eraill nad oeddent am fod yn rhan o'u cymuned gan eu bod yn dewis cymdeithasu â'u teulu neu gadw ar wahân i bobl eraill.




Fodd bynnag, un o'r pethau roeddem wedi'u nodi yn adroddiad y flwyddyn ddiwethaf oedd bod arwahanrwydd cymdeithasol yn gallu bod yn broblem fawr yn aml i bobl hŷn. Felly roeddem yn chwilio am ffyrdd o gymell ac annog pobl i fod yn fwy cymdeithasol weithgar.

Gweledigaeth Gogledd Cymru ar gyfer Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yw *"y bydd dinasyddion a staff ledled Gogledd Cymru yn gallu cael gafael ar wybodaeth hawdd ei deall o ansawdd da am bynciau llesiant ac adnoddau y bydd dinasyddion a staff yn gallu eu defnyddio i gynnal a gwella llesiant".*

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod ei bod yn bwysig sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gynnal eu llesiant, ac mae wedi dangos ei hymrwymiad i Dewis Cymru fel y lle y gyrchu gwybodaeth.

Mae Uwch Dîm Arweinyddiaeth Sir Ddinbych wedi cefnogi ymgysylltu ac arweinyddiaeth gorfforaethol ar Dewis Cymru a sefydlwyd Rhwydwaith Gwybodaeth Sir Ddinbych (DIN) i gasglu a rhannu gwybodaeth, cyngor a chymorth ar lesiant â darparwyr o bob math, yn cynnwys grwpiau cymunedol, sefydliadau'r trydydd sector, sefydliadau annibynnol a sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

- **"Gyda cwrdd Alex teimlaf fod yn rhaid i mi rhywun i fynd i gael cymorth, ac rwy'n teimlo'n ddiogel ag y gwn mae'r tîm yma gysylltiadau da o fewn y gymuned"**
- **"Doeddwn i ddim yn sylweddoli bod yn eithaf cynifer o sefydliadau allan yno i helpu"**

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi datblygu Gwasanaeth Llywyr Cymunedol llwyddiannus gyda'n Partneriaid Trydydd Sector sy'n cynnig ffordd wahanol i bobl gael gwybod beth sydd ar gael neu beth gallant ei gyfrannu i'w cymuned er mwyn eu hiechyd a'u llesiant.

**Sylwadau gan ddinasyddion:**

***"Mae'r gwasanaeth llywyr cymunedol yn gyswllt hanfodol rhwng y practis a'r gymuned. Mae'r llywyr yn meddu ar y wybodaeth yn ogystal â'r arbenigedd sydd ei angen i deilwra'r atgyfeiriad ar gyfer yr unigolyn gan ei wneud yn brofiad mwy personol ac agos-atoch. Rydym yn awyddus i gynnal nifer o brosiectau a thasgau ymchwil gyda'r llywyr cymunedol***

***eleni mewn perthynas â phrofiad y claf a gweithio yn y gymuned" Gwyn Hughes, Rheolwr Gwasanaethau Cleifion, Canolfan Feddygol Clarence, y Rhyl.***

Mae canlyniadau a gofnodwyd yn dangos bod pobl yn teimlo'n hapusach, yn fwy gwybodus, eu bod yn perthyn, bod ganddynt fywyd cymdeithasol, eu bod yn fwy annibynnol ac yn teimlo'n ddiogel.

**Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:**

- Cynnal prosiect adolygu ac ailasesu drwy ddull seiliedig ar asedau ac ailalluogi i gyflawni canlyniadau llesiant yr holl bobl sy'n cael gofal a chymorth a reolir dros y tymor hir.
- Byddwn yn cydweithio â'n partneriaid i sicrhau bod egwyddorion Cynllun Llesiant Sir Ddinbych yn dylanwadu ar ein ffordd o ddarparu ein gwasanaethau. Drwy ganolbwyntio ar y brif thema Annibyniaeth a Chydnerthedd byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod pobl:
    - yn weithgar, yn gysylltiedig ac yn cyfrannu i'w cymuned
    - yn sylwi ar yr hyn sy'n mynd ymlaen o'u cwmpas ac, wrth wneud hynny, yn parhau i ddysgu am eu byd
    - yn rhoi blaenoriaeth i'w llesiant ac yn cynllunio i gadw eu hannibyniaeth

**Gwasanaethau Addysg a Phlant**

Yn aml, bydd plant sy'n derbyn gofal yn ei chael yn anodd cynnal eu cyrhaeddiad addysgol, ac mae hyn yn eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu â phlant eraill yn nhermau cyfleoedd bywyd yn y dyfodol. Rydym yn llunio Cynllun Addysg personol ar gyfer pob Plentyn sy'n Derbyn Gofal i sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth i'r plentyn yn rhoi blaenoriaeth i addysg y person Ifanc hwnnw. Mae ein perfformiad yn y maes hwn yn parhau'n gryf gan fod 100% o Gynlluniau Addysg Personol wedi'u cwblhau o fewn y cyfnod statudol.

Mae ein Swyddog Cyswllt Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynnal fforwm ar gyfer Athrawon Dynodedig Plant sy'n Derbyn Gofal er mwyn rhannu arferion da ar draws ysgolion a darparu hyfforddiant a chymorth i athrawon ar faterion sy'n effeithio ar Blant sy'n Derbyn Gofal. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, mae'r fforwm athrawon dynodedig wedi darparu hyfforddiant ar Dechnegau Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, llwybrau atgyfeirio gwasanaethau cymdeithasol, hybu iechyd, atal digartrefedd a chydnerthedd personol. Yn ogystal â hyn, mae'r fforwm wedi cynnal digwyddiadau dysgu a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r gwasanaeth ar bynciau fel Theraplay, therapi i blentyn a'i deulu i feithrin a gwella ymlyniad, hunan-barch, ac ymddiried mewn eraill ac elusennau fel The Letterbox Club sy'n darparu cymorth addysgol pleserus i blant sy'n derbyn gofal.

Mae lefel y sefydlogrwydd addysgol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn parhau'n uchel. Nifer y plant a newidiodd ysgol unwaith neu ragor, heb fod o ganlyniad i drefniadau pontio, oedd 24, ac roedd 16 o'r newidiadau hyn wedi digwydd am resymau cadarnhaol fel plant yn

symud i leoliadau maeth parhaol, mabwysiadu, lleoli gyda theulu y tu allan i'n hardal, neu ddychwelyd at rieni.

Mae'r Gwasanaethau Addysg a Phlant hefyd yn defnyddio model y **Gweithiwr Cyswllt Teulu** yn ein hymateb ymyrryd cynnar. Bydd y Gweithiwr Cyswllt Teulu yn gweithio gyda theuluoedd lle mae plant cyn ysgol ac oed ysgol gynradd i osod y sylfaen i berthynas ar gyfer parhau i'w cynnwys mewn addysg. Bydd y gweithwyr yn adeiladu cymunedau bach o gwmpas ysgolion cynradd, drwy ddarparu grwpiau ar gyfer babanod a phlant bach sy'n hyrwyddo presenoldeb ac ymgysylltiad gan arwain at gyrhaeddiad addysgol uwch ymysg plant. Mae'r model hwn yn cael ei ystyried yn arfer da.

Mae'r Grŵp Arweinwyr Trechu Tlodi yn grŵp sy'n pontio rhaglenni ac yn cynnwys arweinwyr Cymunedau yn Gyntaf, Cefnogi Pobl, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Y flwyddyn hon, mae'r grŵp wedi cyfuno adnoddau er mwyn cynyddu hyfforddiant i staff rheng flaen ym meysydd Cyflogadwyedd ac wedi llunio Matrics Gwasanaethau Hyfforddiant a Chyflogaeth i'w ddefnyddio gan staff rheng flaen i ddarparu gwybodaeth gyson o safon uwch, cyfeiriadau a chyngor i helpu unigolion sy'n gweithio gydag unrhyw un o'r pedair rhaglen Trechu Tlodi.

**Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:**

- Rydym yn bwriadu meithrin gallu i ddarparu cymorth effeithiol ac effeithlon i ysgolion er mwyn sicrhau y bydd ein gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn eu galluogi i fyw bywyd hapus, iach a llwyddiannus

## e) Helpu pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach a diogel


**Gwasanaethau Cymorth Cymunedol**

O ganlyniad i gyflwyno'r Ddeddf newydd, mae mesurau perfformiad mewn perthynas â chanlyniadau i Ofalwyr wedi newid. Mae gwaith yn mynd ymlaen o hyd i ddatblygu adroddiadau ar sail y newidiadau hyn, wrth ddisgwyl canllawiau pellach oddi wrth Lywodraeth Cymru, felly nid ydym yn gallu adrodd yn hyderus a chywir ar y dangosyddion perfformiad newydd.

Fodd bynnag, mewn ymateb i'r Ddeddf mae Sir Ddinbych wedi defnyddio dull seiliedig ar asedau ar gyfer Gofalwyr yn yr un modd ag ar gyfer yr holl ddinasyddion eraill, ac mae'n darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i Ofalwyr beth bynnag yw lefel y cymorth y maent yn ei darparu. Yma eto, drwy ein Pwyntiau Siarad a'r Un Pwynt Mynediad, mae Gofalwyr yn cynnal sgyrsiau am yr hyn sy'n bwysig iddynt, a ffyrdd i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau llesiant unigol eu hunain. Yn ystod 2016-17, roedd **535** o Ofalwyr wedi cael gwybodaeth a chyngor drwy'r Pwyntiau Siarad a'r Un Pwynt Mynediad, ac roedd **406** wedi cael eu hatgyfeirio ac wedi cael cynnig asesiad llawnach o'u hanghenion cymorth. Gall yr awdurdod

lleol ddarparu cymorth statudol ar ffurf seibiant byr a/neu grantiau untro i gyflawni canlyniadau llesiant penodol.

Yn ystod 2016-2017, datblygwyd Strategaeth Gofalwyr newydd i Sir Ddinbych mewn partneriaeth â sefydliadau iechyd, y trydydd sector a Gofalwyr. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y gofynion yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac yn amlinellu camau gweithredu i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd statudol mewn perthynas â hawliau gwell i Ofalwyr o dan y Ddeddf.




Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cyflwyno proses i gynnig apwyntiad asesu i Ofalwyr ac mae hyn wedi gweithio'n dda i Ofalwyr sy'n gallu codi allan a chael sgwrs am eu hanghenion mewn lleoliad mwy niwtral. Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau Trydydd Sector sy'n cynorthwyo Gofalwyr, fel NEWCIS a Chymdeithas Alzheimer's, i sicrhau bod eu swyddogion ar gael i ddarparu gwybodaeth a chyngor mwy arbenigol i Ofalwyr yn y Pwyntiau Siarad.

Rydym hefyd yn anfon ein holiadur 'Dweud eich dweud' i ofalwyr at y rheini sydd wedi cael asesiad gofalwr.

Roeddem wedi cysylltu â gofalwyr a roddodd ymatebion negyddol (os oeddent wedi rhoi caniatâd i wneud hynny) er mwyn casglu rhagor o fanylion am y problemau y maent yn eu hwynebu. Trosglwyddwyd eu sylwadau wedyn i Swyddog Comisiynu'r Gofalwyr er mwyn cymryd camau penodol addas, yn cynnwys cynnig asesiad.

**Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:**

- Sicrhau bod Gofalwyr yn deall ethos a darpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Bydd angen adolygu ein gwybodaeth gyfredol ar gyfer Gofalwyr i sicrhau ei bod yn cydweddu ag egwyddorion y Ddeddf a dull gweithredu Sir Ddinbych.
- Sicrhau bod y gofalwr yn cymryd rhan yn yr asesiad o'r person sydd ag anghenion gofal, ac ystyried a yw asesiadau ar y cyd yn briodol. Byddwn yn adolygu ein polisi a gweithdrefnau yn unol â'r gofyniad hwn yn y Ddeddf.
- Sicrhau bod dewis o gyfleoedd hyfforddi ar gael i Ofalwyr i hyrwyddo'r rôl gofalu drwy gytuno ar ddull mwy cydgysylltiedig o weithredu gyda'r tîm datblygu gweithlu, sefydliadau iechyd, Swyddog Comisiynu'r Gofalwyr a'r Trydydd Sector.
- Ystyried y manteision a'r dichonolrwydd o fabwysiadu model cynhadledd teulu ar gyfer sefyllfaoedd mewn gwasanaethau oedolion lle bo'n briodol.

**Gwasanaethau Addysg a Phlant**

Mae sefydlogrwydd y lleoliad yn bwysig i blant sy'n derbyn gofal, ac rydym yn gwneud popeth yn ein gallu i leihau nifer y newidiadau. Y flwyddyn ddiwethaf, gwelsom gynnydd yng nghanran a nifer y plant sy'n derbyn gofal a gafodd dri neu ragor o leoliadau yn ystod y flwyddyn, o 8% (14 o blant) yn ystod 2015-2016 i 11% (26 o blant) yn ystod 2016-2017. Rydym yn ymdrechu i gynnal lleoliadau sefydlog ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc, ac yn ceisio lleihau nifer y symudiadau y maent yn mynd drwyddynt. Fodd bynnag, nid yw hyn yn bosibl bob amser, a gellir cael newidiadau am resymau cadarnhaol, fel dychwelyd at y teulu, mabwysiadu, etc. Rydym yn monitro symudiadau rhwng lleoliadau yn fanwl a, lle ceir pryder ynghylch symudiadau, fe ystyrir y rhain yng nghyfarfodydd y Panel Ymyrraeth Ddwys i sicrhau'r sefydlogrwydd mwyaf posibl.

Rydym bob amser yn ceisio gwella ein gweithgareddau ar gyfer recriwtio gofalwyr maeth i sicrhau bod gennym adnoddau a phrosesau paru o safon uchel. Rydym wedi cymryd rhan mewn ymgyrch hysbysebu rhanbarthol ac rydym yn parhau i gydweithio â'n tîm marchnata corfforaethol i sicrhau bod Maethu'n fater sy'n cael sylw helaeth drwy'r sir. Yn ddiweddar, mae hyn wedi cynnwys ymddangosiadau gan y Tîm Maethu a Gofalwr Maeth ar raglen deledu leol i hyrwyddo manteision maethu.

Rydym yn parhau i ymdrechu i recriwtio amrywiaeth o ofalwyr maeth i ateb y galwadau gan ein poblogaeth o Blant sy'n Derbyn Gofal, ac rydym wedi cymryd rhan mewn ymgyrchoedd recriwtio lleol yn ogystal â chydweithio â'r awdurdodau sy'n bartneriaid i ni yng Ngogledd Cymru mewn gweithgareddau recriwtio ar y cyd. Mae'n bwysig cydnabod bod y cyfle i aros o fewn y teulu ehangach yn bwysig hefyd, felly ar hyn o bryd rydym hefyd yn cynorthwyo 21 o Ofalwyr Maeth Ffrindiau a Theulu, sy'n gofalu am 30 o blant. Mae'r gofalwyr maeth hyn yn cyflawni rôl unigryw gan eu bod yn Ofalwyr Maeth a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Lleol ac yn aelodau o'r teulu ac rydym yn cydnabod bod anghenion ychwanegol o ran cymorth a hyfforddiant oherwydd hyn. Mae dau Weithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol yn y Gwasanaeth Maethu sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gynorthwyo Gofalwyr Maeth Ffrindiau a Theulu. Mae'r cymorth hwn yn ychwanegol at yr holl gyfleoedd hyfforddi a gynigir iddynt sydd hefyd ar gael i Ofalwyr Maeth cyffredinol.

Yn ein harolwg blynyddol o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol, dywedodd 78% eu bod yn hapus gyda'r bobl y maent yn byw gyda nhw a dywedodd 75% eu bod yn hapus gyda'u teulu, ffrindiau a chymdogion.

Mae ein rhaglenni atal ac ymyrraeth gynnar o dan Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn parhau i ddarparu gwahanol fathau o gymorth i deuluoedd sy'n cael anawsterau mewn perthynas â rhianta, rheoli ymddygiad plant neu berthnasoedd rhwng rhieni. Mae ein darpariaeth yn cynnwys cymorth un i un a rhaglenni rhianta sy'n cynnwys rhai ar faterion penodol fel y sbectrwm awtistig a rhianta plant yn eu harddegau. Yn ogystal â hyn, darperir cymorth yn y cartref gan Weithwyr Cymorth i Deuluoedd, sy'n gallu darparu cymorth pwrpasol i helpu rhieni i ddefnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth i bennu rheolweithiau a ffiniau i'w helpu i reoli ymddygiad plant a chyfyngu'r straen ar berthnasoedd rhwng rhieni.

Yn y flwyddyn ddiwethaf o dan y ddwy raglen, mae 267 o rieni wedi mynychu ein rhaglenni rhianta a 329 o deuluoedd wedi cael cymorth gan ein Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd.

**Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:**

- Byddwn yn datblygu ac yn darparu rhaglen hyfforddi effeithiol i'r holl staff sy'n ymwneud â darparu sefydlogrwydd i deuluoedd agored i niwed ac yn lleihau'r perygl o chwalu teuluoedd
- Byddwn yn cydgysylltu'n well wrth gomisiynu a gwerthuso Rhaglenni Rhianta ar draws rhaglenni er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau gwasanaethau o ansawdd da sy'n rhoi gwerth am arian

## f) Gweithio gyda phobl a'u helpu i sicrhau llesiant economaidd gwell, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u hanghenion

**Gwasanaethau Cymorth Cymunedol**
Ymgymerwyd â llawer o waith yn y maes hwn yn y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi dechrau gweithredu strategaeth deiliadaeth gymysg a fydd yn cynnig dewis o atebion i alluogi'r Cyngor i gwrdd â gwahanol anghenion y bobl sy'n dod atom oherwydd digartrefedd mewn ffordd ddiogel. Daethpwyd i gytundeb 'mewn egwyddor' rhwng y Tîm Datrysiadau Tai a gwasanaethau Tai Cymunedol, a fydd yn galluogi'r tîm i ddefnyddio 5 eiddo bob blwyddyn i gartrefu pobl sy'n dod atom yn ddigartref.

Roedd gostwng lefel y digartrefedd yn y sir drwy gyflawni'r ddyletswydd "atal" statudol yn effeithiol yn flaenoriaeth allweddol. Yn ystod 2015-2016, cafwyd 147 o ganlyniadau i'r ddyletswydd atal, o'i gymharu â 287 yn 2016-2017 felly cafwyd cynnydd o 95% yn nifer y canlyniadau i'r ddyletswydd atal.

Hon oedd yr ail flwyddyn o weithredu'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a gallwn weld effeithiolrwydd y ddyletswydd atal drwy gymharu'r data ar gyfer y ddwy flwyddyn y mae gennym ddata ar eu cyfer. Mae'r tabl isod yn dangos canrannau'r canlyniadau i'r ddyletswydd atal a oedd yn llwyddiannus ac yn aflwyddiannus.

| | Atal llwyddiannus | Atal aflwyddiannus | Canlyniadau eraill |
|---|---|---|---|
| 2015-2016 | 55% (81 o bobl) | 19% (28 o bobl) | 26% (38 o bobl) |
| 2016-2017 | 54% (155 o bobl) | 9% (27 o bobl) | 37% (105 o bobl) |

Y canlyniadau eraill a gafwyd sy'n rhan o'r 100% yw: tynnu cais yn ôl, tynnu cais yn ôl o ganlyniad i golli cysylltiad, diffyg cydweithredu ar ran y defnyddiwr gwasanaethau, gwrthod cymorth a chamgymeriad ffeithiol.

Os bydd canlyniad y ddyletswydd atal yn aflwyddiannus, mae hyn yn golygu y bydd yr ymgeisydd yn dod yn ddigartref ac yn dod o dan y ddyletswydd lliniaru digartrefedd. Yn 2015-2016, cafwyd 28 o ganlyniadau aflwyddiannus i'r ddyletswydd atal o'i gymharu â 27 yn

2016-2017. Er mai gostyngiad o un achos yn unig yw hwn, roedd yn ostyngiad o ychydig llai na 10% yn nifer yr achosion aflwyddiannus yn 2016-2017.

Roedd angen gwella'r dull o reoli'r ddarpariaeth llety dros dro er mwyn hwyluso'r gallu i symud ymlaen yn gyflymach i dai parhaol fel bod llai o amser yn cael ei dreulio mewn llety argyfwng. Cyflwynwyd strwythur rheoli newydd yn y tîm atal digartrefedd a phenodwyd rheolwr newydd i reoli'r ddarpariaeth llety argyfwng a dros dro. Rydym hefyd wedi penodi swyddog llety dros dro newydd.

Drwy gydweithio â phartneriaid allweddol, cwblhawyd Adolygiad o Ddigartrefedd ac mae'n destun ymgynghori ar hyn o bryd. Wedi i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd strategaeth ddigartrefedd ddrafft yn cael ei datblygu a'i rhoi ar waith wedyn ynghyd â chynllun gweithredu cynhwysfawr. Sefydlwyd protocol ar gyfer cydweithio effeithiol rhwng y Tîm Datrysiadau Tai a'r Adran Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ac mae'n gweithio'n dda. Yn ogystal â hyn, rydym wedi datblygu dull mwy cydgysylltiedig gyda'r rhaglen Cefnogi Pobl i gyfuno ein hadnoddau a gwneud y defnydd gorau ohonynt i ddelio â digartrefedd. O ganlyniad i hyn, mae'r gwasanaeth Cefnogi Pobl a'r Tîm Datrysiadau Tai wedi'u huno a'u cydleoli o dan un strwythur rheoli ar gyfer y ddau dîm. Y Tîm Atal Digartrefedd fydd yr enw ar y gwasanaeth o hyn ymlaen.

Mae'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn cymryd rhan mewn prosiect rhanbarthol, OPUS, i gynyddu cyflogadwyedd pobl Economaidd Anweithgar a Di-waith Dros Gyfnod Hir sy'n 25 mlwydd oed ac yn hŷn, sy'n wynebu rhwystrau cymhleth rhag cael cyflogaeth. Y canlyniadau penodol ar gyfer y prosiect yw:

- Cael cyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth ar ôl gadael y prosiect
- Chwilio am swyddi ar ôl gadael y prosiect
- Ennill cymhwyster neu ardystiad sy'n berthnasol i waith ar ôl gadael y prosiect
- Cynyddu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu wirfoddoli

Yn ystod 2016, rydym wedi cyfuno'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol â Chymorth â'r Gwasanaeth Ailalluogi a Gweithwyr Cymorth Gofal Cymdeithasol gan ei gwneud yn haws i bobl gael gofal ar gontinwwm sy'n rhychwantu gofal iechyd a gofal personol ac yn arwain yn y pen draw at gyfleoedd i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.

Yn ystod 2016-2017, rydym wedi treialu newid yn y llwybr ar gyfer cael addasiadau i gartrefi pobl am 4 mis, drwy symud y cyfrifoldeb dros asesu ar gyfer addasiadau i wasanaeth ataliol, wedi'i gydlynu o fewn yr Un Pwynt Mynediad gan therapydd galwedigaethol profiadol, a symud dau Ymarferydd Gofal Cymdeithasol o dimau Ardal i ganolbwyntio ar y gwaith hwn. Roedd hyn yn unol ag argymhellion a oedd ynglŷn â'r Grant Galluogi. Rhai o nodau'r system well oedd symleiddio a safoni mecanweithiau cymeradwyo a'r broses ar gyfer darparu addasiadau mor gyflym â phosibl a hybu ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr o'r cymorth sydd ar gael a sut i'w sicrhau. Roedd y rhestrau aros wedi'u lleihau o 38 ac roedd 71 o ddinasyddion wedi'u hasesu yn y ffordd hon. Cafwyd

canlyniadau cadarnhaol ac roedd nodau neu ganlyniadau'r rhan fwyaf o ddinasyddion wedi'u cyflawni drwy gymryd mesurau ataliol syml.

O ran nifer y bobl sy'n adrodd eu bod yn byw yn y cartref sy'n fwyaf addas i gynnal eu llesiant, nodwyd mewn 96% o'r ymatebion a gafwyd yn 2016-2017 eu bod yn teimlo mai eu cartref oedd yn cynnal eu llesiant orau. Er bod y ganran hon ychydig yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol, roedd nifer o'r ymatebion wedi nodi nad oedd eu sefyllfa byw gyfredol yn addas oherwydd anawsterau symud o gwmpas. Er hynny, roedd opsiynau'n cael eu hystyried gyda dinasyddion er mwyn sicrhau eu llesiant. Mae'r sylwadau isod yn ymwneud â thai addas:

**"Mae fy nghartref wedi'i addasu i'm helpu"**
**(Dinesydd)**

**"Rwy'n byw yn ein cartref ein hunain gyda'm gŵr yn ofalwr – y trefniant gorau i'r ddau ohonom"**
**(Dinesydd)**

Rydym yn gwybod ei bod yn hanfodol i bobl allu trafod a derbyn gofal a chymorth yn eu dewis iaith.  Rydym hefyd yn gwybod bod hyn yn bwysicach byth i bobl sydd ag anhwylderau cysylltiedig â dementia, gan fod nifer mawr o bobl yn troi'n ôl at eu mamiaith ac yn ei chael yn anodd cyfathrebu o gwbl heblaw yn eu dewis iaith.  Un o'r cwestiynau rydym yn eu gofyn yn ein holiaduron 'Dweud eich dweud' a anfonir at ddinasyddion yw a oeddent 'yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith'. O'r bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 421 (99%) wedi dweud eu bod wedi gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

**Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:**

- Gan fod pwyslais arbennig ar gydnabod pwysigrwydd Cymunedau Cyfeillgar i Oed a Chymunedau Cyfeillgar i Ddementia ar bob lefel ledled Sir Ddinbych, byddwn yn cydweithio ymhellach â phartneriaid i ddatblygu proses gydnabod genedlaethol ar gyfer busnesau a sefydliadau cymunedol a masnachol 'Cyfeillgar i Ddementia' ac i'w mabwysiadu.
- Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod pobl hŷn yn Sir Ddinbych yn cael y profiadau gorau posibl drwy barhau â dysgu a chyflogaeth, er enghraifft, drwy amlhau'r cyfleoedd i gymryd rhan drwy wirfoddoli, helpu i gynyddu nifer y bobl hŷn sy'n parhau i ddysgu a datblygu eu sgiliau cyn ac ar ôl ymddeol a phennu a datblygu modelau cymunedol llwyddiannus ar gyfer cyfranogi gan bobl hŷn
- Er mwyn gostwng lefelau unigrwydd ac arwahanrwydd a'u heffaith negyddol ar iechyd a llesiant pobl hŷn, byddwn yn helpu i godi unigrwydd ac arwahanrwydd fel mater iechyd cyhoeddus ac yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau gwybodaeth a chyngor iechyd a gofal cymdeithasol yn rhoi sylw i effaith unigrwydd ac arwahanrwydd ar lesiant pobl hŷn. Byddwn yn ceisio grymuso pobl hŷn i'w gwneud yn ymwybodol o beryglon unigrwydd ac arwahanrwydd i'w llesiant ac yn trefnu Cyfnewidfa Ddysgu ar Unigrwydd rhwng pobl hŷn, staff rheng flaen a gweithwyr proffesiynol eraill i adnabod prif achosion unigrwydd ac arwahanrwydd ymysg pobl hŷn

- Byddwn yn cwblhau ein Strategaeth Ddigartrefedd ac yn dechrau gweithio ar y cynllun gweithredu gan ddatblygu'r Tîm Atal Digartrefedd sydd newydd ei greu i'w droi'n wasanaeth ataliol cyfannol. Rydym yn bwriadu lleihau'r amser y mae pobl yn ei dreulio mewn llety argyfwng a hwyluso'r gallu i symud ymlaen yn gynt i dai parhaol. Drwy wneud hyn, byddwn yn gweithredu strategaeth deiliadaeth gymysg sy'n cynnig dewis o atebion a fydd yn cwrdd â gwahanol anghenion y bobl sy'n dod atom yn ddigartref mewn ffordd ddiogel.

**Gwasanaethau Addysg a Phlant**

Yn ein harolwg o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol a gynhaliwyd ym mis Medi, gofynnwyd am adborth am eu teimladau am eu bywyd cartref a pherthyn. Dywedodd 75% o blant a phobl ifanc eu bod yn byw mewn cartref lle maent yn hapus a dywedodd 72% eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal lle maent yn byw.

Rydym yn comisiynu Barnardos Cymru i ddarparu ein Gwasanaeth Cynghorwyr Personol ar gyfer rhai sy'n gadael gofal. Mae Cynghorwyr Personol yn gweithio gyda'r bobl ifanc i'w paratoi ar gyfer byw'n annibynnol, gan gynnig cyngor a chymorth ymarferol, fel y byddai rhiant yn ei wneud, er mwyn pontio'n rhwydd i fyd oedolion.

Ar ddiwedd Mawrth 2017, roedd y gwasanaeth yn cynorthwyo 73 a oedd yn gadael gofal. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwasanaeth wedi canolbwyntio ar ymgysylltu'n well â'r bobl ifanc a'u grymuso i gymryd mwy o ran mewn creu eu cynlluniau Llwybr ac mewn adolygiadau statudol. Mae mwyafrif y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaethau wedi sicrhau gwelliannau neu wedi cadw sefydlogrwydd mewn nifer o feysydd. Bydd y Cynghorwyr Personol yn parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar helpu pobl ifanc i gael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a'u cadw, ac ar sicrhau bod pobl ifanc yn cael llety sicr a diogel.

Rydym yn cydnabod y pwysigrwydd o helpu teuluoedd i ddatblygu a chreu cydnerthedd a hunanddibyniaeth ariannol. Ymyriadau ar sail yr egwyddorion hyn sy'n fwyaf tebygol o arwain at ganlyniadau gwell i blant yn y tymor hwy. Mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Sir Ddinbych yn gweithio gyda theuluoedd agored i niwed sydd yn aml yn wynebu anawsterau ariannol, ansefydlogrwydd o ran tai, problemau iechyd meddyliol neu gorfforol ac arwahanrwydd cymdeithasol. O dan adain Teuluoedd yn Gyntaf, rydym wedi comisiynu nifer o gonsortia i weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi sylw i'r anghenion hyn.

Mae'r Consortiwm Cyfnerthu Teuluoedd wedi helpu 540 o unigolion yn y flwyddyn ddiwethaf drwy ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gynnal iechyd emosiynol teuluoedd. Mae'r gwasanaethau sy'n rhan o'r consortiwm yn darparu cymorth mewn perthynas â pherthnasoedd, profedigaeth, iselder ôl-enedigol, hunanhyder ac iechyd a llesiant emosiynol. Maent hefyd yn darparu cynadledda grŵp teuluol a chyfryngu ar gyfer teuluoedd sy'n grymuso teuluoedd i wneud penderfyniadau a rhoi cynlluniau ar waith eu hunain i amddiffyn a diogelu plant.

Yn ogystal â hyn, mae 784 o unigolion wedi cael cymorth gan ein Consortiwm Mwyhau Incwm fel rhan o ymateb cydgysylltiedig i leihau pwysau ariannol ar y teulu cyfan. Mae'r Consortiwm Mwyhau Incwm yn darparu gwybodaeth a chymorth i dderbyn budd-daliadau a chredydau treth y wladwriaeth, cyngor ar drafod arian a lleihau dyled yn ogystal â gwybodaeth a chymorth mewn perthynas â hawliau tai a chyflogaeth, cynhwysiant ariannol a chynlluniau ynni fforddiadwy.

**Model Llwybr Cadarnhaol Digartrefedd Person Ifanc**

Comisiynwyd adolygiad gan Lywodraeth Cymru o bobl ifanc sy'n cael eu lleoli mewn llety gwely a brecwast. Roedd yr adolygiad hwn yn dangos mai Sir Ddinbych oedd un o'r awdurdodau a oedd yn defnyddio llety gwely a brecwast amlaf ar gyfer pobl ifanc. Estynnwyd gwahoddiad gan Sir Ddinbych i awdur yr adolygiad annibynnol, Anna Whelan, i weithio gyda ni gyda'r bwriad o gyflwyno'r Model Llwybr Cadarnhaol. Rhoesom ymateb parod a chadarnhaol ac roedd uwch reolwyr ac aelodau etholedig wedi arwain ar sicrhau bod y model yn cael ei weithredu yn Sir Ddinbych.

Mae'r prosiect yn rhoi pwyslais arbennig ar gynorthwyo pobl ifanc pan fyddant yn dod at yr Awdurdod Lleol yn ddigartref, drwy gydweithio'n agos â'r Tîm Datrysiadau Tai, Gwasanaethau Plant, a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ac asiantaethau perthnasol eraill (e.e. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed). Bydd Gweithwyr Cymorth penodedig o'r prosiect hwn yn cynnal asesiad cynhwysfawr o bob person ifanc rhwng 16 a 25 oed sy'n dod at yr Awdurdod Lleol yn ddigartref neu sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref. Yn rhan o'r asesiad hwn, bydd y Gweithiwr Cymorth yn pennu anghenion cymorth y person ifanc, a'r camau sydd eu hangen i atal/delio â digartrefedd.

**Model Llwybr Cadarnhaol Digartrefedd Person Ifanc**

- **Ceisio delio â'r angen am dai CYN i ddigartrefedd ddigwydd**
- **Dull systemau cyfan – nid oes un asiantaeth/corff sector cyhoeddus sydd â'r atebion i gyd**
- **Seiliedig ar ganlyniad – beth yw effaith arfaethedig y buddsoddiad?**
- **Cysylltiad rhwng tai a chyflogaeth**
- **Y cysyniad o 'gamu ymlaen' ar gyfer nifer mawr o bobl ifanc**
- **Asiantaethau eraill – y Trydydd Sector, y sector cyhoeddus, cymdeithasau tai yn chwarae rhan allweddol yn lleol**
- **Seiliedig ar beth sy'n gweithio'n dda – beth mae pobl ifanc yn ei ddweud?**

Mae ein cynllun peilot a ddechreuodd yn 2016 wedi dangos ei fod yn arwain at welliannau sylweddol mewn dulliau strategol a chydweithredol o ddelio â digartrefedd ieuenctid ac at arbedion ariannol drwy leihau'r defnydd o lety gwely a brecwast yn sylweddol. Mae wedi bod yn gyfrwng i gael gwell cydweithio rhwng awdurdodau tai, gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a phobl ifanc, ac wedi effeithio ar gyfraddau llwyddiant ar gyfer atal digartrefedd. Er hynny, rydym yn wynebu heriau o hyd

mewn perthynas, er enghraifft, ag opsiynau/y cyflenwad tai a phobl ifanc sydd ag anghenion lluosog/cymhleth iawn.

Canlyniadau rhwng Tachwedd 2016 a Mawrth 2017:

- 28 o bobl ifanc wedi osgoi mynd i lety dros dro
- 7 o bobl ifanc wedi dychwelyd adref ar ôl cyfryngu
- 11 o bobl ifanc wedi'u lleoli mewn tai â chymorth
- 10 o bobl ifanc wedi cael cymorth fel y bo'r galw

**Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:**

- Sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael profiadau cadarnhaol o leoliadau o fewn teuluoedd parhaol, sefydlog, diogel a chariadus sy'n eu hannog a'u cymell i wireddu eu potensial ac yn pontio'n rhwydd i fyd oedolion
- Byddwn yn ailgomisiynu rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg Sir Ddinbych ar gyfer 2018/19 ac wedyn, ar sail asesiadau o anghenion, ymgysylltu â rhanddeiliaid a datblygu cyflenwyr er mwyn sicrhau bod gennym wasanaeth cadarn ar gyfer ymyrryd cynnar ac atal sy'n sicrhau canlyniadau effeithiol i blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed

# 5. Sut Rydym yn Gwneud ein Gwaith

## a) Ein Gweithlu a Sut Rydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

Wrth baratoi ein gweithlu i gwrdd â disgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac i gael cymysgedd sgiliau priodol sy'n sicrhau bod y Gwasanaeth yn ariannol hyfyw a chynaliadwy, cynhaliwyd adolygiad o rolau a chyfrifoldebau gwaith cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2016. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i foderneiddio'r fframwaith ar gyfer camu ymlaen mewn gyrfaoedd gwaith cymdeithasol yn unol â Fframwaith Gyrfaoedd Cyngor Gofal Cymru ar gyfer Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus. Lluniwyd disgrifiadau swydd newydd a'u halinio â graddau cyflog, gan ddileu rhwystrau hanesyddol a oedd yn atal gweithwyr cymdeithasol rhag cyrraedd pen uchaf y raddfa cyflogau. Mae'r fframwaith wedi'i seilio ar egwyddor dilyniant proffesiynol ac mae gweithwyr cymdeithasol yn gallu datblygu eu gyrfaoedd a chymryd rhan yn y rhaglenni priodol ar gyfer Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus, gan wella ac ehangu eu gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd proffesiynol. Roedd yr adolygiad hwn yn rhoi cyfle hefyd i gytuno ar y nifer swyddi arfaethedig ar bob lefel mewn gwaith cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu gweithredu'n ddiogel ac effeithiol o dan gyfyngiadau ariannol, gan sefydlu rolau a chyfrifoldebau clir mewn perthynas â graddau gwaith cymdeithasol.

Cefnogwyd pob ymarferydd Gwaith Cymdeithasol drwy gynllun hyfforddi unigol dros gyfnod o 3 – 5 mlynedd er mwyn mapio ac ymgymryd â'r cymwysterau ôl-gymhwyso angenrheidiol sy'n berthnasol i'w radd. Roedd hyn yn cynnwys y cymwysterau neu raglenni canlynol: Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol, Ymarferydd Profiadol, Uwch Ymarferydd, Rheolwr Tîm, Dyfarniad Athro Ymarfer, Ymarferydd Iechyd Meddwl Cymeradwyedig ac Asesydd Lles Pennaf.

Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol ar y cyd â Llywodraeth Cymru wedi cynnig fframwaith ôl-gofrestru ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol mewn Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi'i fwriadu i gydweddu â'r holl fframweithiau presennol eraill, yn cynnwys fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd newydd y GIG (Moderneiddio Gyrfaoedd Proffesiynau Perthynol i Iechyd yng Nghymru), y fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus i weithwyr cymdeithasol a'r fframwaith gyrfaoedd a gyhoeddir cyn hir gan goleg y therapyddion galwedigaethol.

Canlyniadau arfaethedig y fframwaith yw galluogi therapyddion galwedigaethol mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol i gael cymorth a chyfleoedd datblygu i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd gorau posibl i bobl Sir Ddinbych (a Chymru); cwrdd â'r gofynion ar gyfer eu cofrestru a pharhau i wella'r dull o ddarparu gwasanaethau a ffyrdd strategol o ddatblygu gwasanaethau proffesiynol o ansawdd da yn ogystal â gallu dilyn llwybr gyrfa cenedlaethol mewn gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych.

Bydd hefyd yn creu fframwaith gyrfaoedd a fydd yn cynnal gwaith mewn timau aml-broffesiwn yn ogystal â gwaith gan weithwyr gofal cymdeithasol eraill mewn sefydliadau gofal cymdeithasol ac asiantaethau er mwyn hwyluso gwasanaethau integredig.

Roedd yr holl therapyddion galwedigaethol sy'n gweithio i awdurdod Sir Ddinbych wedi cyfrannu i ymgynghoriad Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol ar weithredu'r fframwaith ac wedi cyflwyno ymateb ar y cyd a oedd yn llwyr o blaid y cynigion. Erbyn diwedd 2017, bydd dilyniant gyrfaoedd Therapyddion Galwedigaethol o fewn Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei gysylltu â'r fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus, sydd wedi'i seilio ar egwyddor dilyniant proffesiynol. Bydd therapyddion galwedigaethol yn gallu datblygu eu gyrfaoedd a chymryd rhan yn y rhaglen briodol, gan wella ac ehangu eu gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd proffesiynol. Mae hyn yn golygu y bydd cymwyseddau therapyddion galwedigaethol presennol yn cael eu hasesu a Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi yn cael ei gynnal yn barod ar gyfer gweithredu.

Yn 2016-2017, roedd awdurdod Sir Ddinbych wedi cyflawni ei elfen o'r Cynllun Hyfforddi ar gyfer Gogledd Cymru ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Roedd 37 o gyrsiau, gyda 828 o leoedd, wedi'u darparu ar gyfer staff a chafwyd cyfradd bresenoldeb ragorol o 99%. Darparwyd digwyddiadau hyfforddi rhanbarthol i'r sector cyfan a oedd wedi'u cydgysylltu gan Gyngor Gofal Cymru ar gyfer darparwyr y Trydydd Sector a'r sector annibynnol. Roedd y rhain yn cynnwys 'Hyfforddi fy Sefydliad' a 'Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant' lle'r oedd 110 o ddarparwyr o'r sector cyfan yn Sir Ddinbych yn bresennol.

Yn ail hanner 2017, canolbwyntiwyd ar ddarparu hyfforddiant 'Dosbarth Arbenigwyr', wedi'i dargedu ar reolwyr ac ymarferwyr priodol er mwyn eu galluogi i fabwysiadu a dilyn egwyddorion a gofynion y Ddeddf yn eu gwaith pob dydd. Trefnwyd dosbarthiadau arbenigwyr ar gyfer Rheolwyr Gwasanaeth, Rheolwyr Tîm, Arweinwyr Ymarfer ac Uwch Ymarferwyr mewn dau weithdy 'Datblygu Sefydliadol' - Newid Diwylliannau a Mesur

Perfformiad a 'Cyfraith Gofal Plant – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Plant 1989'.

Drwy gydol 2016 ac ar ddechrau 2017, roeddem wedi buddsoddi mewn rhaglen datblygu rheolaeth ac arweinyddiaeth ar gyfer Rheolwyr Tîm / Arweinwyr Ymarfer ac Uwch Ymarferwyr (Oedolion) a oedd yn canolbwyntio ar alluogi'r grŵp staff hwn i reoli'n fwy rhagweithiol ac effeithiol yn ystod cyfnodau cythryblus, datblygu dull mwy emosiynol ddeallus o reoli pobl a chanlyniadau, a chynyddu eu heffaith bersonol mewn sefyllfaoedd o bob math yn y gweithle.

Mae'r holl staff yn cael eu cymell a'u hatgoffa o'r angen i gydymffurfio â gofynion 'Mwy na geiriau / More than just words' a'r Safonau Iaith Gymraeg corfforaethol newydd. Mae hyn yn cynnwys diweddariadau am gydymffurfio mewn gwahanol agweddau ar waith y Cyngor gan gynnwys gohebiaeth, cyfarch pobl dros y ffôn, negeseuon ateb pan na fyddwch yn y swyddfa, cyfarfodydd etc. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd cymorthfeydd galw heibio ar gyfer staff Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Addysg a Phlant, diweddariadau rheolaidd ar y fewnrwyd a gosodwyd gwirwyr gramadeg/sillafu ar liniaduron yr holl siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn y Gwasanaeth. Hefyd mae unigolion wedi'u henwebu'n **Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg** yn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Addysg a Phlant.

Yn y misoedd nesaf, ein blaenoriaeth fydd paratoi'r gweithlu gofal cartref yn Sir Ddinbych ar gyfer eu cofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) mewn perthynas â chofrestru gorfodol a'r posibilrwydd o reoleiddio cymwysterau.

## b) Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

**Cynllunio Ariannol a Monitro Cyllidebau**

Cyflwynir adroddiadau alldro ariannol i'r weithrediaeth bob mis sy'n rhag-weld y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r adroddiadau'n cyfeirio at eithriadau neu bwysau, gan nodi mesurau lliniaru. Caiff y gyllideb flynyddol ei gosod ar ôl dilyn proses hir o adolygu pwysau ac arbedion yn yr holl wasanaethau ac ymgysylltu ag aelodau etholedig ac eraill. Yn y tymor canolig, mae'r cyngor yn dilyn Cynllun Ariannol Tymor Canolig tair blynedd sy'n amcangyfrif sefyllfa ariannol y cyngor dros y cyfnod hwnnw ac yn cynnwys amcangyfrifon, drwy weithio gyda gwasanaethau, o arbedion sydd eu hangen neu anghenion ariannu ychwanegol. Yn rhan o'r broses hon, dadansoddir data hanesyddol a rhagolygon am gostau a chleientiaid.

Bydd y cynllunio ariannol mewnol prif ffrwd yn cael ei wneud yng nghyfarfodydd misol tîm arwain / rheoli'r Gwasanaethau. Canolbwyntir ar berfformiad a monitro ariannol yn y meysydd sydd o dan y pwysau mwyaf. Bydd swyddog cyllid y gwasanaethau hefyd yn cwrdd yn rheolaidd â Phenaethiaid Gwasanaeth a Thîm Gweithredol y Rheolwyr.

## c) Ein Gwaith mewn Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae'r cyngor wedi rhoi trefniadau cadarn iawn ar waith ar gyfer llywodraethu mewnol er mwyn rheoli gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol.  Cyflwynir adroddiadau i wahanol Bwyllgorau Craffu drwy gydol y flwyddyn i alluogi Aelodau Etholedig i graffu ar bolisi a pherfformiad mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau sy'n monitro cynnydd ar unrhyw gamau y mae angen eu cymryd mewn ymateb i adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr neu i adroddiad blynyddol AGGCC.  Yn ogystal â hyn, mae gennym broses sefydledig ar gyfer herio perfformiad gwasanaethau, lle bydd pob pennaeth gwasanaeth yn cael ei herio bob blwyddyn ar feysydd fel perfformiad y gwasanaeth ac arweinyddiaeth.  Bydd y panel ym mhob cyfarfod herio perfformiad gwasanaeth yn cynnwys y Prif Weithredwr; Cyfarwyddwyr Corfforaethol; Aelodau Arweiniol; Aelodau Pwyllgorau Craffu a rheoleiddwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru).

Yn ogystal â'r broses herio gwasanaeth, mae'r cyngor hefyd yn cynnal fframwaith cadarn iawn ar gyfer rheoli perfformiad. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i'r Uwch Dîm Arwain, Pwyllgorau Craffu, a'r Cabinet, a chyflwynir gwahanol adroddiadau o bryd i'w gilydd i Bwyllgorau Craffu ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau penodol, fel Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed.

**Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, Mawrth 2017**

Mae Sir Ddinbych wedi llwyr ymrwymo i gymryd rhan a chyfrannu i waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol newydd ac mae'n cael ei gynrychioli gan yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau. Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau yw'r Aelod Arweiniol Rhanbarthol dros y Gronfa Gofal Integredig a chadeirydd y Grŵp Cyllideb Gyfun newydd. Mae Prif Swyddog Cyllid y cyngor hefyd wedi'i gyfethol yn aelod o'r Grŵp Cyllideb Gyfun.

Blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw:

1. Symud gwasanaethau tuag at fodel ataliol sy'n hybu iechyd a llesiant. Gwell atal na gwella.
2. Darparu gwasanaethau cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl, eu dewisiadau ac asedau cymdeithasol.
3. Helpu pobl i ddefnyddio eu sgiliau a'u hyder i fyw'n annibynnol, gyda chymorth gwasanaethau a chyfleusterau o ansawdd da yn y gymuned.
4. Sicrhau bod pobl a chymunedau'n cymryd rhan mewn llunio gwasanaethau lleol.
5. Cydnabod a deall yr ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant, yn cynnwys addysg, tai, lles, digartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd.

**Perfformiad ar drafod ac ymchwilio i gwynion a sylwadau a gyflwynir**

Cafwyd mwy o gwynion am wasanaethau cymdeithasol yn 2016-2017 nag yn y flwyddyn flaenorol. Trafodwyd cyfanswm o 62 o gwynion dilys am wasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â 37 yn ystod 2015-2016. Roedd y 62 o gwynion wedi arwain at 54 o ymchwiliadau Cam 1 ac 8 o ymchwiliadau Cam 2.

- Trafodwyd ac ymatebwyd i 90% o gwynion o fewn y cyfnod gofynnol. Mae hyn yn is na'r ganran o 97% yn y flwyddyn flaenorol.
- Roedd gostyngiad sylweddol yng nghanran y cwynion a gafodd eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol y flwyddyn hon, o 62% yn 2015-2016 i 50% yn 2016-2017.

Os bydd cwyn yn cael ei datrys erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf er boddhad i'r achwynydd, ni ddylai gael ei chofnodi'n gŵyn. Yn hytrach, mae cwynion o'r fath yn cael eu cofnodi'n bryderon. Trafodwyd 13 allan o 75 o gwynion dilys yn y modd hwn, fel bod canran y cwynion yr oedd angen eu rheoli drwy'r broses ffurfiol wedi gostwng 17%.

Roedd nifer o'r cwynion a gafwyd y flwyddyn hon yn ymwneud ag ymgysylltu, o ganlyniad o bosibl i'r ffaith bod ein hymarfer yn parhau i newid. Mae ymarferwyr yn awr yn llwyr fabwysiadu ymarfer sy'n unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Fodd bynnag, mae cwynion a gafwyd yn awgrymu bod ein dinasyddion yn parhau i gynefino â'r dull hwn o ddarparu gwasanaethau mewn partneriaeth.

Dyma rai enghreifftiau o Welliannau mewn Gwasanaethau/Gwersi a Ddysgwyd ar ôl cyflwyno cwynion:

- Cyflwynwyd gwelliannau yn ein gwasanaeth Ailalluogi. Yn awr mae gweithwyr allweddol yn cael eu dyrannu i ddinasyddion penodol. Bydd y gweithwyr allweddol yn gweithio sifftiau gyferbyn â'i gilydd (yn ôl nifer y galwadau mewn diwrnod), ac mae hyn wedi caniatáu i ni gyfyngu ar nifer y staff gwahanol sy'n ymweld â'r dinesydd a sicrhau cysondeb.
- Mae gweithdrefn newydd ar gyfer cofnodi achosion ar waith yn awr yn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. Roedd cwynion ynghylch cofnodi achosion yn gymorth mawr i lunio a gwella ein polisi yn y maes hwn.
- Lluniwyd protocol newydd ar gyfer y bwrdd cyfarpar pediatrig ar ôl cael cwyn ynghylch oedi cyn archebu cyfarpar arbenigol.
- Cynhyrchwyd set gyflawn o ddeunydd darllen llawn gwybodaeth i ddarparu cyngor a chyfarwyddyd i rieni, gofalwyr a phobl ifanc am Wasanaethau Plant. Cyflawnwyd hyn mewn ymateb i adborth gan rieni a oedd wedi nodi nad oeddent yn llwyr ddeall y gwasanaethau a'r prosesau cysylltiedig.

**Sgiliau Iaith Gymraeg y gweithlu a Phroffil Cymuned Gymraeg Sir Ddinbych**

Mae'r Cyngor eisoes wedi ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Gymraeg ac wedi cymryd nifer o'r camau a gytunwyd yn barod. Mae hefyd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r fframwaith Mwy na geiriau / More than just words, yn enwedig yr angen am 'Gynnig Rhagweithiol'. Mae

gwneud 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu peidio â chymryd bod yr holl siaradwyr Cymraeg yn siarad Saesneg beth bynnag. Mae hefyd yn ymwneud â chreu newid mewn diwylliant sy'n tynnu'r cyfrifoldeb oddi ar ysgwyddau'r unigolyn dros orfod gofyn am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Crëwyd Safonau'r Gymraeg gan Lywodraeth Cymru i sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r set o safonau wedi'i chreu i sicrhau bod pobl ledled Cymru yn gallu cael gwasanaethau a ddarperir gan y sector cyhoeddus yn eu dewis iaith. Mae'r Safonau'n ymwneud ag ystod eang o faterion, yn cynnwys gohebiaeth, hysbysebu, cyhoeddusrwydd, cyfarfodydd, cyfarchion dros y ffôn, creu polisïau a recriwtio. Maent yn ymwneud hefyd â lefelau sgiliau iaith y gweithlu.

**Crynodeb o Ddata am Berfformiad ar Ddiwedd y Flwyddyn**

O ganlyniad i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, roedd yn ofynnol i ni gasglu set newydd o ddata am berfformiad i Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn 2016/17. Oherwydd maint y newidiadau yr oedd eu hangen o ran offer cofnodi ac adrodd, nid oeddem yn gallu adrodd ar yr holl ddangosyddion diwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gyson â'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru.

# 6. Cael Gafael ar Ragor o Wybodaeth a Dogfennau Allweddol

a) Astudiaethau Achos yr Un Pwynt Mynediad – Y gwahaniaeth rydym yn ei wneud – (Adran 4a)
b) Astudiaeth Achos o Gyllidebau Cymorth (Adran 4)
c) Astudiaeth Achos o Therapi Galwedigaethol (Adran 4)
d) Astudiaeth Achos o Lywyr Cymunedol (Adran 4b neu 4d)
e) Llwybr Cadarnhaol Digartrefedd Ieuenctid Sir Ddinbych - Cyflwyniad (Adran 4f)
f) Perfformiad ar drafod ac ymchwilio i gwynion a sylwadau a gyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol 2016 /2017 (Adran 5)
g) Proffil Cymuned Gymraeg Sir Ddinbych (Adran 5)
h) Data Perfformiad Diwedd Blwyddyn (Adran 5)

# 7. Rhestr Termau

## Cefnogi Pobl

Un o raglenni Llywodraeth Cymru yw Cefnogi Pobl. Mae'n darparu gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai i bobl sy'n agored i niwed dros 16 oed. Mae hyn yn eu galluogi i fyw'n annibynnol yn y gymuned ac osgoi'r perygl o ddod yn ddigartref. Darperir cymorth cysylltiedig â thai i helpu pobl sy'n agored i niwed i ddatblygu neu gynnal y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i fyw mor annibynnol â phosibl.

## Diogelu

Mae gan bawb hawl i fod yn ddiogel, pwy bynnag ydyw a beth bynnag yw ei amgylchiadau. Mae diogelu'n ymwneud ag amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed rhag eu cam-drin neu esgeuluso. Mae pob un ohonom yn gyfrifol am ddiogelwch yr aelodau o gymdeithas sy'n fwyaf agored i niwed.

## Integreiddio'r Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol

Mae Integreiddio'r Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol yn cynnwys Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol penodol a sicrheir i bobl drwy Swyddogaethau Gofal Iechyd GIG y Bwrdd Iechyd a Swyddogaethau Gofal Cymdeithasol Perthynol i Iechyd y Cyngor. Mae'r Cyngor yn darparu a threfnu ar ei gyfer. Mae'r gwasanaeth wedi'i integreiddio drwy sicrhau trefniant cyllideb gyfun sy'n unol â'r diffiniad yn y Ddeddf Hyblygrwydd Iechyd (Adran 33).

## Prawf Newid

Profion ar raddfa fach sy'n ein helpu i benderfynu a fyddai syniad yn gallu arwain at welliant cynaliadwy. Dylid rhoi prawf ar newidiadau o dan nifer o amodau a chyda gwahanol staff cyn eu gweithredu. Mae'n debyg i astudiaeth beilot.

## Pwyntiau Siarad

Prif bwrpas y Pwyntiau Siarad yw galluogi unigolion sy'n profi anawsterau neu'n gofalu neu bryderu am rywun arall i gael cyfle am sgwrs sy'n canolbwyntio ar y person am yr hyn sy'n bwysig iddo er mwyn gwella ei iechyd a llesiant drwy siarad â rhywun wyneb yn wyneb.

Mae'r Pwyntiau Siarad yn fenter ar y cyd â chymheiriaid mewn gwasanaethau iechyd a'r Trydydd Sector sy'n canolbwyntio ar helpu pobl i reoli eu llesiant, aros yn annibynnol, ac atal neu ohirio eu hangen am ofal a chymorth.

## Strategaeth Gomisiynu

Mae strategaeth gomisiynu yn gynllun hirdymor sy'n disgrifio'r gwasanaethau a'r ystod o gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd, yn ystyried anghenion y presennol a'r dyfodol, ac yn dod i gasgliadau ynghylch sut y gellir diwallu'r anghenion hynny'n effeithiol. Mae'n pennu cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

## Tai â Gofal Ychwanegol

Mae Tai â Gofal Ychwanegol yn fath arbenigol o dai sydd wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer pobl hŷn. Mae gan bobl sy'n byw mewn Tai â Gofal Ychwanegol eu cartrefi hunangynhwysol eu hunain ond mae gofal a chymorth ar gael iddynt ar y safle. Mae'n caniatáu i bobl fyw'n annibynnol wrth gael y gofal a chymorth sydd eu hangen arnynt. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried bod Tai â Gofal Ychwanegol yn ddewis yn lle gofal preswyl sy'n galluogi pobl.

## Un Pwynt Mynediad

Dyma'r pwynt cyswllt cyntaf yn Sir Ddinbych ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth ynghylch gwasanaethau sy'n helpu dinasyddion i aros yn annibynnol ac yn hyrwyddo llesiant, ac ynghylch derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol pan fo'u hangen.